YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1902. [CYF. II. RHIF 8.

DYLEDSWYDD RHIENI TUAG AT YR YSGOL SUL.

Papyr a ddarllenwyd yn Nghyfarfod Blynyddol y Gymdeithas yn Gellionen, Gorphenaf 10, 1902,

GAN Y PARCH. JENKYN THOMAS, PENDLETON.

MAE dyn yn ei gyfanswm yn cael ei wneud i fyny o amrywiol elfenau, ac y mae i bob elfen ei swydd briodol a'i phwysigrwydd neillduol mewn bywyd. Efallai y gallwn ddosranu y cyfan i'r corfforol, y meddyliol, y moesol a'r ysprydol. Rhanai Paul y dyn i'r anianol a'r ysprydol, neu, mewn geiriau ereill, y marwol a'r anfarwol, yr hyn sydd gyfnewidiol a darfodedig, a'r hyn sydd fyth barhaol. Hoff ydym weithiau o ymfalchio yn yr agwedd allanol, yr osgo ystwyth, y cryfder gewynol, y llygaid caruaidd ddysgleiriant fel gemau, y ffurf brydferth, y gwallt modrwyog. Ond pethau cyfnewidiol, ehedog, darfodedig yw y rhai hyn ar y goreu. Y corff, yr anianol, a'u gwrid yn berthynasau agos i'r byd anifeilaidd, a dderfydd fel cysgod; yr yspryd sydd yn ein codi o'r llwch i wychder bywyd yr Anfeidrol, ac yn ein gwneud yn berthynasau i'r angelion. Nis gallwn wneud heb

YR ELFEN GORFFOROL

yn y bywyd hwn. Mewn byd materol nid gwiw ymsymud fel ysprydion ar wyneb meusydd llafur a blaenfynediad. Os am gymeryd rhan yn ngwaith bywyd, rhaid yw wrth wasanaeth y corff; a goreu i gyd pa brydferthaf, iachusaf, a hoenusaf y bydd y corff hwn. Credaf weithiau fod yma amrywiaeth yn ngwëad y defnydd materol a gyfansodda y corff dynol. Mae edefyn garw wedi ei weu i fewn i

gyfansoddiad corfforol ambell i ddyn, ac y mae y gerwinder hwn yn gorlwytho yr enaid, yn llyffetheirio yr yspryd, yn gwneud y meddwl yn gaethwas i'r natur anianol, a'r gwir ddyn yn garcharor drwy ei oes. Mae yn anrhaethol bwysig fod pob plentyn yn cael corff iach, hoenus, heb un haen arw, isel ynddo, corff heb ormodedd o'r tueddiadau anifeilaidd; ac y mae yn ymddibynu i raddau helaeth ar dadau a mamau ein gwlad a yw y plant yn cael dechreu eu gyrfa a'r tabernacl daearol yn bur, yn iach, yn deml brydferth, briodol i'r yspryd i drigianu ynddi. *Cleanliness is next to godliness*, meddai y ddiareb Saesnig. Ond mae rhai pobl yn amheu a yw yn bosibl cael duwioldeb heb lanweith-dra. Gan nad beth am hyn, glanweith-dra yw sylfaen iechyd. Awyr iach yn mhob congl o'r tŷ, dwfr gloew, glân, bwyd iachus—dyma y pegynau ar y rhai y mae iechyd yn troi, ac heb iechyd yn yr arenau, heb iechyd yn mhob aelod o'r corff, mae braidd yn anmhosibl meithrin y meddwl chwim ac aiddgar, yr elfen foesol aruchel, a'r yspryd uchelgeisiol, cariadus, maddeugar, addfwyn a duwiol. Nis gellir, gyda llwyddiant, fychanu pwysigrwydd y corff-orol mewn bywyd. Rhaid wrtho, a rhaid talu sylw dyladwy iddo.

Ond wedi'r cyfan, diflanu wna'r corff. Elfenau darfodedig sydd yn ei gyfansoddi.

Y Meddwl, y Deall, a'r Yspryd

sydd anfarwol. Dywed Emerson fod meddwl yr Anfeidrol fel mantell hyfryd daenedig drosom bob amser. Lle mae y byd materol yn anymwybodol mae Duw yn ymwybodol; lle mae y corfforol gweledig yn ddall, mae yr yspryd anweledig yn gweled ac yn medru penderfynu y dyfodol. Mae y ffaith ein bod yn meddu ar reswm, yn gallu gwneud defnydd o'n meddwl, yn tystiolaethu ein bod yn berthynasau agosach i Dduw nag yw yr anifeiliaid. Mae Duw yn penderfynu y cyfan dros yr anifail, ac yn peri iddo ddatblygu yn unol a'r syniad a'r ddelfryd sydd ganddo mewn golwg yn y bydysawd enfawr. Mae Duw hefyd yn taenu ei fantell feddyliol dros y dyn, ac yn unioni camrau gwamal dynolryw. Ond gan fod yr Anfeidrol wedi creu dyn ar ei lun ac ar ei ddelw ei hun, ac wedi ei gynysgaeddu a doniau dwyfol, mae hyn yn codi dyn uwchlaw y creadur, ac yn ei wneuthur yn blentyn Duw. Ac fel mab Duw mae dyn yn meddu y rhodd anmhrisiadwy o allu i resymu drosto ei hun, a phenderfynu y llwybr y dewisa droedio mewn bywyd. Pa oreu y byddwn yn gallu meddwl a rhesymu, hawddach i gyd y gallwn olrhain y dwyfol yn y bydysawd. Ac olrain y dwyfol yn y bydysawd yw y gwaith mwyaf swynol ac aruchel y gallwn fyth ymgymeryd ag ef. Mae genym ysgolion elfenol a chanolraddol, a cholegau er cwrteithio y meddwl a datblygu y rheswm. Ac mae pob Coleg yn trefnu cwrs neillduol er datblygu y meddwl ar hyd y llinellau priodol i ymgymeryd a gwaith bywyd. Felly gallwn ystyried y meddwl fel offeryn anhebgorol angenrheidiol er cario allan waith bywyd. Rhaid ynte wrth wasanaeth y meddwl diwylliedig, y rheswm addfed, treiddgar, a fedr olrhain camrau yr Anfeidrol yn y byd a'r bywyd hwn.

Ond mae y defnydd wnawn ni o'r meddwl ar ol ei ddiwyllio a'i ddatblygu yn ymddibynu yn hollol ar y dueddfryd fewnol, y ddelfryd foesol, yr ymgyrch ysprydol. Gall dyn sydd yn meddu galluoedd meddyliol cryf fod y dyhiryn gwaethaf ar glawr creadigaeth y Goruchaf. Gellir defnyddio y meddwl i wneud offerynau i ladd, neu i leddfu dioddefaint. Gall y cawr meddyliol gyfeirio ei gamrau i feusydd anmhurdeb, creulondeb a phechod ysgeler, neu i fynwes duwioldeb a theyrnas Duw ar y ddaear. A gall ddwyn minteioedd o'i gydwladwyr i lawr gydag ef i waelodion pydewau o bechod, neu eu codi i fyny i awyrgylch bur y bywyd ysprydol. Yr

Elfenau Moesol ac Ysprydol

yw yr yni nerthol a wna ddefnydd o alluoedd meddyliol y bydysawd. Tystia rhai fod Prydain Fawr yn ystod y tair blynedd diweddaf wedi colli ei gafael ar ei delfryd foesol gyntefig. Mae ei chariad at rinwedd gwleidyddol, at frawdoldeb, rhyddid, a blaenfynediad—wedi pylu; mae wedi ei ddibrisio yn nghanol y tònau materyddol sydd wedi gorddiwes ein gwlad. Mae y syniad y dylai y byd gael ei reoli gan y cyfoethog er mwyn y cyfoethog, ac nid er mwyn dynolryw yn gyffredinol, wedi dwyn y syniad o amherawdraeth (*imperialism*) i fewn i'r byd gwleidyddol. Ac mae y ffaith fod cwmniau enfawr yn cael eu ffurfio, fod gwerthwyr myglys ein gwlad wedi ymuno yn erbyn gwerthwyr myglys yr Amerig, fod ymgais lwyddianus wedi ei gwneud i ddwyn llongau goreu Lloegr i grafangau cwmni sydd eisioes yn llywodraethu rheilffyrdd yr Unol Dalaethau—mae hyn oll yn tystiolaethu fod cyfoeth yn marchogaeth mewn rhwysg, ac yn gwneud ymdrech i feddianu a rheoli y byd. Haner can mlynedd yn ol breuddwydiai Carlyle a phrophwydi eraill ein gwlad fod *llafur* yn myned i esgyn i'r orsedd, ac i deyrnasu fel brenhin. Heddyw mae cyfoeth ar yr orsedd, ac mae olwyn blaenfynediad wedi arafu, ac yn ol barn rhai pobl wedi ei gohirio am haner can mlynedd.

Mae yn anrhaethol bwysig ynte i osod yn ein plant pan yn ieuainc

Ddelfryd Foesol Aruchel.

Mae argraffiadau dyfnaf bywyd yn cael eu ffurfio cyn bod y plentyn yn ugain oed. A hon yw yr adeg y dylai y rhieni fod yn wir ofalus i ddatblygu cyneddfau moesol ac ysprydol y plant. Mae yn digwydd yn aml nad yw y rhieni yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y moesol a'r ysprydol, ac nid ydynt mewn canlyniad yn alluog i ddysgu i'w plant wersi crefyddol. Mae rhai pobl yn credu, ond iddynt alluogi y plentyn i enill ei fara beunyddiol, eu bod wedi gwneud eu rhan, ac nad oes disgwyliad iddynt i wneud rhagor. Pe anifail yn unig fyddai y plentyn, yn byw ac yn marw fel anifail, efallai y rhoddai hyn foddlonrwydd. Ond gan fod pob plentyn yn berchen ar gynheddfau moesol ac ysprydol mae lladd y rhai hyn trwy esgeulusdra yn bechod yn erbyn y natur ddynol, yn gam ofnadwy a'r dwyfol yn y dyn; ac

os oes pechod anfaddeuol yn llywodraeth Duw cariad a maddeuant, sicr yw fod esgeuluso datblygu y dwyfol yn y plentyn yn bechod anfaddeuol ar ran y rhieni.

Cred ambell i Undodwr calon agored y dylai pob plentyn gael y fraint o ddewis ei grefydd, neu, y ffurf o grefydd sydd fwyaf cydnaws a'i natur; ac y dylai y cynheddfau crefyddol gael eu gadael heb eu cwrteithio nes y bydd y plentyn yn alluog i'w ddatblygu yn unol a'i dueddiadau ei hun. Dyma un o'r syniadau mwyaf pigddall ellir gwrdd mewn bywyd. Tystia y gwyddonwr fod "natur yn casbau gwagle" (*nature abhors a vacuum*). Mae hyn yn sicr, os gadawn ni natur foesol a chrefyddol y plentyn yn wag, y bydd i'r gelyn hau efrau yn y maes, nes ei llanw a sothach crefyddol; neu, bydd i natur, mewn digllonedd, gymeryd cynheddfau moesol a chrefyddol y plentyn i ffwrdd bron yn llwyr o'i gyfansoddiad. Os yw ein hegwyddorion yn anwyl i ni, os credwn yn drwyadl eu bod yn gyd-fynedol ag yspryd Iesu, sicr yw ei bod yn ddyledswydd arbenig arnom i ddysgu ein golygiadau crefyddol i'n plant, ac i geisio datblygu eu cynheddfau moesol ac ysprydol. Dywedai Iesu Grist, "Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi, ac na waherddwch iddynt; canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd." Mae cadw y plant allan o gyrhaedd argraffiadau crefyddol yn gam a'r eneidiau agorant mor brydferth mewn byd o ryfeddodau.

Nid ydym ychwaith yn gwneud ein holl ddyledswydd pan yn ceisio datblygu y natur foesol yn unig, a chynorthwyo y plant i wahaniaethu rhwng y drwg a'r da, i fod yn onest, yn gariadus, yn uchelgeisiol, a didwyll. Mae yna berthynas rhwng

Yspryd Dyn ac Yspryd Duw.

Dylai pob plentyn gael ei gynorthwyo i sylweddoli y berthynas hon, a'i alluogi i gylymu ei fywyd bychan wrth y Bywyd tragwyddol, fel y gall deimlo Duw yn amddiffynfa iddo. Dylai pob plentyn gael dysgu ei ffordd i dy ei Dad Nefol, fel y gall deithio yno yn ffyddiog gyda'i ofidiau a'i groesau, a chael nerth i daflu ei feichiau ar yr Arglwydd. Dylai plentyn Duw gael ei alluogi i adnabod ei Dad nefol, a theimlo fod mantell cariad Duw drosto bob cam o'i fywyd, Dylai fyw yn nheyrnas nefoedd ar y ddaear, a theimlo gyda'r Iesu ei fod yn un a Duw mewn ewyllys, doethineb, cariad a hapusrwydd. Mae y bywyd sydd yn cael ei fyw mewn cymdeithas agos a'r Anfeidrol Dduw y bywyd llawnaf a mwyaf tangnefeddus ellir fyw ar y ddaear.

Beth sydd gan hyn oll i wneud a'r Ysgol Sul? 'Rwyf wedi ceisio dangos dyledswydd rhieni tuag at eu plant—eu dyledswydd i feithrin yr holl gynheddfau sydd yn meddiant pob plentyn; ac

Amcan yr Ysgol Sul

yw datblygu cynheddfau crefyddol y plentyn. Mae athrawon yr Ysgol Sul yn ceisio dwyn y plant i wybodaeth o'r Ysgrythyr, yr hon

sydd yn llawn o berlau moesol, addysgiadau crefyddol, ac esiamplau o fywydau sydd wedi eu treulio yn awyrgylch y dwyfol. Maent yn dwyn y plant i gyffyrddiad a'r cewri yn y byd crefyddol, ac yn wyneb yn wyneb a'r person mwyaf dwyfol yn hanes dynolryw, Iesu o Nazareth, y gwr fu byw yn Nheyrnas Dduw ar y ddaear. Dysgir hwynt i yfed o'i yspryd cariadus, maddeugar, a hunan-aberthol, ac i feithrin gyda gwir wroldeb gariad at Dduw a dyn. A chynorthwyir hwynt i feithrin y teimlad addolgar, ac i draethu eu diolchgarwch i'r Duw byw mewn emynau o fawl a gweddi.

Na ddanfonwch eich plant allan i fôr enfawr ac ystormus bywyd heb ddigon o wroldeb moesol a ffydd yn yr ysprydol yn eu meddiant i wynebu pob ystorm ddichon eu cyfarfod ar y daith. Mae yn bechod, bron anfaddeuol, i adael i ieuenctyd ein gwlad i gael eu chwythu tua chreigleoedd anffyddiaeth heb feddu unrhyw wybodaeth grefyddol i'w cynorthwyo yn y frwydr. Mae miloedd o fywydau gwerthfawr yn cael eu dinystrio bob blwyddyn am nad oes digon o *ballast* moesol ac ysprydol ar y bwrdd. "Hyfforddia blentyn yn mhen ei ffordd; a phan heneiddio nid ymedy â hi." Ond i'r plentyn gael cychwyn yn iawn mewn bywyd, ond iddo gael meddiant ar ddelfryd foesol aruchel, ond iddo deimlo unwaith gariad angherddol ei Dad nefol yn amgylchynu ei fywyd ac yn amddiffynfa iddo, gall holl ddeniadau cnawd a byd wneud ymgais i'w swyno, a holl demtasiynau cyfoeth a phechod wneud ymdrech i'w lethu, a gall yr holl bechodau a orchfygant ddyn chwythu arno, ond trwyddynt oll mae yn ddiogel, ac yn byw y bywyd dwyfol yn nhiriogaeth purdeb moesol, ac mewn cymundeb hyfryd a'r Yspryd Tragwyddol.

Danfonwch eich plant i'r Ysgol Sul, neu, yn well fyth, arweiniwch hwy yno, ac ni fydd i chwi fyth edifarhau am eich gwaith, canys yn yr Ysgol Sul mae elfenau goreu dyn yn cael eu cwrteithio, y cynheddfau dwyfol a wnant ddyn yn anfarwol yn cael eu diwyllio a'u datblygu.

Yn mywyd gofidus Charlotte Brontë, nid oes un benod dristach na marwolaeth anamserol ei brawd, yn nghanol ei "ormod rhysedd." Ysgrifena yn dorcalonus at gyfaill iddi:—"Pan edrychwn ar wyneb a thalcen braf fy mrawd marw, ac y gofynwn i mi fy hun, beth erioed a wnaeth iddo fyned ar gyfeiliorn, gan dueddu o hyd tuag i lawr, pan oedd ganddo gynifer o ddoniau i'w ddenu a'i gynorthwyo tuag i fyny, teimlwn fy mod yn derbyn datguddiad gorlethol o wendid dynoliaeth, o anigonoldeb o hyd yn nod athrylith i arwain i wir fawredd, heb gymorth crefydd ac egwyddor." Mae'r dalent yn dda, ond nid heb foesoldeb.

YR YSMOTYN DU.*

Gan y Parch. W. James, B.A., J.P., Llandyssul.

Rhandir yn Ngheredigion ydyw'r ysmotyn, ac mae'n ddu oherwydd mai Undodiaid sydd yn gwneud i fyny ran helaeth o'r trigolion. Du ydyw lliw'r diafol, ac yn ngolwg Cristionogion duwiol, eiddigeddus dros burdeb eu credo, mae Undodiaid fel plant y diafol yn gwisgo lliw y tylwyth. Y cyfryw ydyw dylanwad yr heresi hon, fel mae y tir y preswyliant arno, y meusydd a gwrteithiant, y gerddi oddiamgylch eu tai, wedi colli eu swyn cynhenid; ac "ysmotyn du" ydyw yr enw mwyaf cymhwys am wlad yn yr hon y mae cyfeiliornad mor feiddgar ac eithafol wedi gwreiddio. Desgrifiai un o weinidogion blaenaf yr Anibynwyr yn y cylchoedd hyn Undodiaeth unwaith, fel y pren Upas oedd yn gwenwyno pob peth oddiamgylch iddo. O braidd y dywedir un amser fod y parth hwn yn waeth o ran ei foesau na rhyw fan arall yn Nghymru. Nid yw y rhan hon o *Fap* Ceredigion yn cael ei lliwio yn ddu, pan mae ystadegau troseddau y wlad yn cael eu trefnu a'u cymharu a'u gilydd. Na, nid dyna'r drwg—

"Pant afiach yw Pantdefaid,—
Paham? yn y tŷ
Mae torf o Undodiaid,
Ow fodd blin! ni fedd y blaid
Y Duw-ddyn yn geidwad enaid."

Sut mae wedi digwydd eu bod wedi colli gafael ar y Duw-ddyn, &c.

Mae'r Peth yn Syndod

pan yr edrychwn ni ar y mater yn ystyriol. Rhyw ddyrnaid o bobl mewn rhan anghysbell, fynyddig, o'r wlad—ychydig ffermwyr a gweithwyr, pobl gyffredin, wedi anwybyddu credoau ac ymarferiadau crefyddol Eglwys y Plwyf, awdurdod, dysgeidiaeth, a pharchusrwydd yr offeiriad, wedi pasio trwy holl gyffroad y Diwygiad mawr Methodistaidd heb deimlo fawr o'i ddylanwad, ac wedi beiddio yn wyneb y cwbl, i feddwl drostynt eu hunain, a hyny mor eithafol ac mor groes i bobl eraill Mae hon yn *broblem* sydd eisiau ei hesponio, os gellir ei hesponio, ac mae'n myned yn fwy anhawdd pan meddyliwn ni nad yw'r Cymro, na'r tylwyth y perthyn iddo chwaith—y Celtiaid—ddim erioed wedi bod yn flaenllaw fel *pioneers* yn symudiadau crefyddol y byd. Dim ond dau heretic o'r dosbarth blaenaf, mor bell ag y gwn i, sydd wedi codi yn eu plith erioed—

Pelagius ac Ernest Renan,

un yn y bedwaredd ganrif, a'r llall yn y bedwaredd-ar-bymtheg. Mae'n deilwng o sylw mai teitl y benod ar y Diwygiad Protestanaidd yn Hanes newydd Cymru gan Owen Edwards yw, "*An Unwelcome Reformation*" —Diwygiad heb groesaw iddo gan y bobl ond yn cael ei wthio arnynt gan y llywodraeth. "Y syniad cyffredin am y Celtiaid," meddai y Prif-athraw Rhys, yn ei *Hibbert Lectures* ar "*Celtic Heathendom*," tud. 229, "yw eu bod, mewn cymhariaeth i genhedloedd o'r cyff Teutonaidd, yn naturiol ac yn hanfodol, yn ofergoelus a phenboeth, agored i gael eu marchogaeth gan offeiriad neu bregethwr." Mae y Prif-athraw yn gwneud defnydd o ysmotyn du ei sir enedigol fel un gwrthbrawf yn erbyn y dybiaeth uchod. Dywed:

* Er nad wedi ei ysgrifenu ar gyfer yr amcan hwnw, darllenwyd y papyr hwn fel anerchiad yn nghyfarfod y Gymdeithas Undodaidd Gymreig yn Gellionen, Gorphenaf 10, 1902.

"Yr wyf yn cyfeirio at gorff bychan o bobl sydd wedi bod mewn bodolaeth yn Sir Aberteifi am dros gan' mlynedd. Yno, mewn rhanbarth amaethyddol, rhwng yr afonydd Aeron a Theifi, mae cred gyffredin Cristionogion Trindodaidd wedi pasio drosodd i'r hyn a elwir yn Undodaidd. Credir gan drigolion y wlad oddiamgylch yr ysmotyn du hwn, fel y galwant ef, nas gall fod gan y dduwinyddiaeth Undodaidd unrhyw at-dyniad i'r meddwl crefyddol; er hyny, mae y dduwinyddiaeth hono wedi gwreiddio yn ddwfn ac yn gadarn yno. Mae yr ysmotyn du yn ardal lonydd yn nghanol y wlad, heb dref na phentref, o faintioli mawr. Nis gellir ystyried ffermwyr bychain, a

LLAFURWYR AMAETHYDDOL LLANDYSSUL,

er eu bod yn bobl feddylgar a deallus, mewn unrhyw ystyr yn dyfod i fyny a safon Renan neu Voltaire; ac mae y cwestiwn yn gwthio ei hun yn anocheladwy, paham y mae credo nad oes ganddi, yn ol v dybiaeth gyffredin, un swyn i gorph mawr y boblogaeth, a golygiadau, os nad wyf yn camgymeryd, ydynt yn ymylu ar amheuaeth (*scepticism*); paham maent yn cael y fath ddylanwad penderfynol ar eu meddyliau? Gadewch i'r rhai hyny ateb a gredant fod y Celt yn hanfodol yn benboethyn ofergoelus."

Er dyfynu geiriau un o Gymru enwocaf ei oes nid ydym fawr yn nes at esponiad y *broblem*. Paham mae ysmotyn du o heresi yn difwyno gwyneb glân Ceredigion yn fwy na Chaernarfon? Onid y rhanbarth yma yn Ngheredigion ddylai yn ol natur pethau fod y lle diweddaf i feithrin syniadau cyfeiliornus ac anffyddol? Onid dyffryn Aeron yn fwy nag un man arall oedd tarddle yr adfywiad mawr Methodistaidd? Onid

LLANGEITHO FU YN JERUSALEM

y Corff am flynyddau, lle yr oedd y llwythau yn dod yn nghyd ar yr uchel wyliau, ac yn cario dylanwadau grymus y weinidogaeth trwy bob rhan o Gymru? Onid yw yn rhyfedd fod rhan helaeth o wlad "y breintiau mawr" wedi troi allan yn ysmotyn du, yn fagwrfa prenau yr Upas, ac yn drigfa dreigiau? Sut mae'n digwydd fod y fath argyhoeddiad, y fath benderfyniad a beiddgarwch wedi eu geni a'u magu yn nghalonau gwladwyr cyffredin, fel ag i'w gallogi i daflu o'r neilldu holl atdyniadau parchusrwydd yr Eglwys Sefydledig, ac yn fwy na hyny, i wrthsefyll pregethau tanllyd Daniel Rowlands, Ebenezer Morris, ac eraill, oedd yn ysgubo trwy y wlad fel *lava* y llosgfynydd? "Wel," meddai rhywun, "tyfiant ydyw Undodiaeth fel pob symudiad arall." Ie, eithaf gwir, ond 'does dim tyfiant o ddim. Mae pob bywyd yn golygu bywyd arall o'i flaen, ac mae pob symudiad dynol yn gysgod o ryw ddyn. Ac mae'n rhaid i ni syrthio yn ol ar y *factor* o

BERSONOLIAETH DDYNOL,

a thucefn i hono wedi'n arfaeth ac etholedigaeth Duw, er mwyn cyfrif am Undodiaeth Sir Aberteifi fel elfen wylaidd yn mlaenfynediad y gwirionedd. Cludwyd yr hedyn "ar adenydd dwyfol wynt" i galon Jenkyn Jones, Llwynrhydowen, pan yn y Coleg tua'r flwyddyn 1725—hedyn o wrthryfel yn erbyn gorthrwm a chreulondeb yr hen athrawiaeth. Fe dyfodd, ac fe dyfodd nes dryllio gefynau Calfiniaeth, ac ysgydwodd Jenkyn Jones ei hun allan o afaelion yr hunllef oedd wedi gorphwys ar ei enaid trwy'r blynyddau. Yn yr ymdrech hon daeth posiblrwydd Undodiaeth i'r golwg. Yr ydym yn dyddio ei genedigaeth yn Sir Aberteifi ar yr adeg yna, fel mae Cristionogaeth yn dechreu gyda genedigaeth Crist, a'r Diwygiad Protestanaidd ar y diwrnod pan yr hoeliodd Luther ei osodiadau ar borth Eglwys Wittenberg. Nid ydym yn golygu wrth hyn fod Jenkyn

Jones yn Undodwr. Dim o gwbl, ond yr oedd

GWREIDDYN Y MATER

ynddo ; yr oedd wedi cael gafael ar yr egwyddor o rydd-ymofyniad ; bellach, 'doedd yr un gyfundrefn, pa mor uchel bynag oedd ei hawliau, pa mor hen a pharchus bynag oedd ei thraddodiadau, pa mor lluosog bynag ei hymlynwyr, yn rhy gysegredig i edrych i mewn iddi. Mae Undodiaeth yn tyfu yn naturiol mewn *soil* o'r fath yna. Hedyn bychan iawn oedd hi ar y dechreu yn Sir Aberteifi—dim ond *attitude*, dim ond posiblrwydd yn enaid Jenkyn Jones ; ond yn nghwrs natur, trwy fod un wedi planu, eraill wedi dyfrhau, a Duw yn rhoi y cynydd, daeth Undodiaeth, yn ystod blynyddoedd cyntaf y ganrif ddiweddaf, yn rhywbeth i gyfrif ag ef yn y sir. Nid yn unig yr oedd yn *phenomenon* i synu ato, ond yr oedd yn

BETH I'W OFNI,

ac wedi dyfod yn fater o bryder a dychryn i'r rhai a gredent fod achos y gwirionedd mewn perygl. Mae hyn yn amlwg oddiwrth yr ymdrechion a wnaed i wrthsefyll ei dylanwad. Cafodd hyd yn nod yr Eglwys Sefydledig, yn nghanol ei chysgadrwydd a'i difaterwch ar ddechreu'r ganrif, ei dihuno, yn nghymydogaeth Ystrad beth bynag, i wneud un ymdrech nodedig i ladd yr heresi. Cawn oddiwrth ysgrifeniadau y Parch. Thomas Belsham fod Dr. Burgess, Esgob Tyddewi, wedi cymeryd rhan flaenllaw yn erbyn y mudiad Undodaidd, ac eithaf tebyg mai o dan ei nawdd a'i anogaeth ef y trefnwyd cyfres o bregethau gan offeiriaid mwyaf enwog a dysgedig y cylch yn Eglwys Ystrad, er mwyn egluro y safle uniawngred, ac i ddinystrio yr hadau gwenwynig a hauid gan y Parch. John James, wedi hyny o Gellionen, ac ar y pryd gweinidog yr eglwysi bychain Undodaidd yn Mhantdefaid, Capelygroes ac Ystrad. Cymerodd Mr. James arno i fyned i wrando yr holl bregethau hyn, ac i'w hatteb un ar ol y llall yn ei ysgoldy bychan yn y pentref. Creodd yr amgylchiad gryn ddyddordeb a chyffro yn yr ardal, ac mae y traddodiad yn aros am y pregethwr unig yn sefyll a'i gefn yn erbyn y mur, ac yn traddodi ei ergydion gyda'r dylanwad a'r effeithiolrwydd ellid ddisgwyl oddiwrth ddyn mor frwdfrydig a hyawdl. Yn naturiol dilynodd yr enwadau eraill esiampl yr Eglwys, feallai gyda mwy o sel ac angerddoldeb. Gelwid am wasanaeth y pregethwyr mwyaf poblogaidd yn y cymanfaoedd mawrion, a'r commisiwn gawsent oddiwrth yr awdurdodau lleol cyn cychwyn o gartref, oedd ymosod yn ddiarbed ar Undodiaeth. Oddeutu y flwyddyn 1820, yr oedd y tymheredd duwinyddol wedi ymgodi i angerddoldeb neillduol yn nghymydogaeth Llandyssul. Yr oedd yr Undodiaid wedi myned yn hyf ac yn feiddgar, o dan arweiniad y pregethwr galluog a thanllyd sydd wedi ei grybwyll yn barod ; ac yr oeddent wedi gosod yr holl ardal yn un berw o ddadl grefyddol o un pen i'r llall. Rhaid oedd gosod taw ar beth fel hyn, a dystewi rhyfyg annuwiol y rhai a aflonyddent ar heddwch pobl yr Arglwydd. Anfonwyd cenhad at y Parch.

WILLIAM WILLIAMS O'R WERN,

pregethwr mwyaf yr Anibynwyr ar y pryd, i geisio ganddo i ddyfod i lawr i gymanfa a gynhelid yn Horeb y flwyddyn hono. Mae genym hanes yr ymweliad a'r bregeth ar "Berson ac Iawn Crist" yn mywgraffiad y pregethwr gan Hiraethog. Rhydd y bardd ddarlun byw o'r pregethwr mawr yn yr oedfa hono. Fel y gallem ddisgwyl, yr oedd wedi dyfod o'r gogledd i fuddugoliaethu. Ei arwyddair oedd, "Daethum, gwelais a gorchfygais." "Cyn pen deng munyd yr oedd y dyrfa fawr yn ei law, pob clust wedi ei sicrhau, a phob meddwl wedi ei gyffroi. Mae

dylanwad yr ymadroddion tanllyd yn ymledu fel trydan trwy'r dorf. Mae gwynebau'r Sosiniaid yn gwelwi, a llawenydd yn pelydru yn llygaid a gwedd eu gwrthwynebwyr. Bob yn dipyn tyr yr argaeau, mae'r hyawdledd yn anorchfygol, ac yn ysgubo pob peth o'i flaen fel llifeiriant. Mae y ddwy blaid yn anghofio eu dadleuon, a gwelid yr Undodwr a'r Trindodwr yn cydgymysgu eu dagrau o dan y dylanwad," ac yr oedd John James y gweinidog yn eu plith. Mae Hiraethog yn sylwi am yr oedfa hono fod Undodiaeth Sir Aberteifi wedi *teimlo hyd at ei henaid* oddiwrthi. Wel, os diangodd ei henaid hi, nid ymddengys fod y driniaeth wedi bod yn galed iawn. Dim ond rhyw gosi ar y wyneb gafodd hi wedi'r cwbl, ac yr oedd mor iached a'r geirchen dranoeth. O'r hyn leiaf, yn mhen diwrnod neu ddau ar ol hyny, mae John James a William Williams yn cyfarfod a'u gilydd ar y ffordd, ac mae un mor barod a'r llall i ddechreu ail ornest. Maent yn myned ati o ddifrif yn y man, ac fel y dywed Hiraethog, yn

CORNIO EU GILYDD FEL DAU DARW.

Wrth gwrs, mae Williams yn y diwedd yn dwyn ei holl adnoddau i'r ffrynt, ac yn cael y goreu ar ei elyn. Mae Sion, fel y dywed Hiraethog, yn ffromi ar hyn, yn yspardynu ei farch, ac ymaith ag e' ar garlam wyllt, fel pe buasai cwn ar ei ol. Mae'n anhawdd gwybod faint o'r *Apocrypha* sydd yn yr adroddiad uchod. O leiaf, carwn i gael *version* John James hefyd o'r hanes. Mae

JOHN JONES, TALSARN,

yn myned ar ei daith i Sir Aberteifi yn 1823, ac ar ol clywed cyn cychwyn fod y fath bobl ag Undodiaid yno, mae'n parottoi pregeth orchestol i'w hyrddio i'w gwersyll bob cyfle gawsai. Yr oedd John Jones wedi ei gynhyrfu drwyddo pan y gwelodd sefyllfa pethau, a dywedai na ddylai un pregethwr uniawngred adael Sir Aberteifi hyd nes y byddai Undodiaeth wedi ei hymlid o'i therfynau. Mae y Parch. John Evans, Abermeurig, yn ei lythyrau ar Undodiaeth Sir Aberteifi i'r "Cylchgrawn" yn crybwyll y sylw yna o eiddo John Jones, ac yn dweyd, "Ti a lefaraist fel pe llefarai un o'r ynfydion." Gwyddai ef yn eithaf da pe buasai holl "hoelion wyth" yr enwadau uniawngred i gyd yn cael eu *coloniso* yn Sir Aberteifi am chwarter canrif, na fuasai y cynllun yn gwneud un gwahaniaeth i Undodiaeth. Sut y gallwch chwi i ddisgwyl pobl i farnu yn ofer holl addysgiadau goreu yr Iesu mewn pregeth a dameg, mogi lleisiau godidocaf eu natur, a gwadu tystiolaeth Duw fel mae wedi ysgrifenu ei hun ar lechau cnawdol eu calonau, a derbyn yn gyfnewid o eneuau pregethwyr poblogaidd yr enwadau? Beth? cyfundrefn sydd yn *libel* ar Dduw ac ar ddyn, yn achub rhyw ychydig o'r teulu dynol, ac yn damnio y gweddill i uffern ddiddiwedd a diddyben? Mae Undodiaeth, beth bynag ydyw ei diffygion, yn symnd ar linellau mwy teilwng a mawreddog na hyna. Bu y darn bychan Undodaidd yn sefyll am flynyddau lawer yn *objective* i gyfleygrau mawrion pregethwrol y gogledd. Deuent o hyd yn eu tro i roi hergwd a chwff, a chreu ychydig gyffroad diflanol ar ddydd y gymanfa; ond pan y byddai y niwl wedi clirio ymaith, gwelid fod Undodiaeth yn aros o hyd. Daeth y

PARCH. JOHN ELIAS

i Llanbedr yn 1829; cafodd y commisiwn arferol, a mynwesid disgwyliadau mawrion yn nglŷn a'i ymweliad. Ysgrifenodd y Parch. J. R. Kilsby Jones adroddiad celfydd a desgrifiadol o'r brif oedfa, sydd wedi ei ail-gyhoeddi yn ddiweddar yn y "Geninen," o dan y teitl "John Elias yn y Sasiwn." Ei destyn yntau oedd, "Duwdod Crist"; ac nid oes eisiau dweyd fod pregeth ar y fath bwnc gan y fath bregethwr yn dd gwyddiad i'w gofio am oes, gan

nad beth feddyliwn ni am gadernid ei chynseiliau. Yr achlysur diweddaf ag y gwn i am dano pryd y gwnaed ymosodiad arbenig ar Undodiaeth oedd yn nghymanfa yr Anibynwyr yn Llandyssul yn 1880, gan y Parch.

Dr. Rees, Abertawe.

Gyda phob dyledus barch i goffadwriaeth yr hen sant, dysglaer ei rinweddau, o braidd y gallem feddwl y pryd hwnw, ac yr ydym yn ei ailfeddwl heddyw, ei bod yn arwydd o ddoethineb ynddo i ddewis y fath destyn pan yn pregethu yn y man lle yr oedd Gwilym Marles, newydd farw y pryd hwnw, un o ddynion mwyaf athrylithgar a diwylliedig ei oes, a'r mwyaf medrus fel meddyliwr ac fel siaradwr addurnodd bwlpud erioed, wedi bod yn llafurio ac yn dioddef dros ryddid a gwirionedd am ugain mlynedd. Yr oedd y Dr. yn ei adnabod yn dda, ac nis gallai obeithio i'w bregeth wneud unrhyw argraff ar ugeiniau o'r gwrandawyr, wrth y rhai yr oedd Gwilym Marles er wedi marw yn parhau i lefaru eto. Yr ydwyf wedi crybwyll y manylion hyn er mwyn egluro y mater y darfu i mi gychwyn gydag ef, fod Undodiaeth Ceredigion, nid yn unig yn rhywbeth i synu ato, ond yn beth i'w ofni fel un o'r drygau gwaethaf. Yr ydym wedi gweled sut yr oedd dynion blaenaf y gwahanol enwadau yn edrych ar y sefyllfa, ac wedi gwneud pob ymdrech allasent i wneud yr ysmotyn du yn wyn, ac i ymlid y gelyn o'r wlad ; ac yr oedd y teimlad hwn o ddrwgdybiaeth a gelyniaeth, ac mae etto o ran hyny, nid yn unig yn dylanwadu ar arweinwyr y bobl, ond yr oedd wedi ymledu trwy holl gorph cymdeithas, yn neillduol tuallan i derfynau y darn Undodaidd, lle na adnabyddid Undodiaid ond wrth y cymeriad gwrthgrefyddol oedd yn gysylltiedig a'u hanes.

Dr. Thomas, Dol'llan.

Dyma engraifft. Yr oedd y meddyg poblogaidd a galluog hwn yn gweini ar ddyn tlawd yn agos i Gapel Drindod, lle yr oedd yn aelod selog a defnyddiol. Yr oedd y Dr. wedi bod yno dro ar ol tro am fisoedd, ac yr oedd y dyn wedi gwella yn y diwedd, ond yn ei ddygn dlodi ni wyddai yn y byd sut i gyfarfod a'r *bill* pan y delai. Yr oedd y Dr. erbyn hyn wedi dyfod i adnabod y dyn, ac i wybod ei hanes. Synodd pan y clywodd ei fod mor benboeth yn ei ragfarn yn erbyn yr Undodiaid, ac yn neillduol ei fod wedi gwneud adduned ag ef ei hun nad elai ar un cyfrif tu fewn i furiau capel Undodaidd. Pan y daeth y dyn i'r lan i Llandyssul i dalu yr oedd y Dr. wedi cael amser i gynllunio ei fesurau er mwyn cyfarfod a'r amgylchiadau. Gwyddai na allasai yn ei fyw dalu dim yn debyg i'r hyn oedd yn cyfateb i'w wasanaeth. "Wel, syr, wn i ddim beth i wneud a chwi," meddai'r dyn, "yr ydych wedi bod yn garedig dros ben i mi, ac o dan fendith Duw 'rwy'n ddyledus i chwi am fy mywyd. Yr ydych yn gwybod mor dlawd ydwyf, a bod misoedd lawer wedi pasio heb i mi enill dim. 'Rwyf wedi casglu rhyw swm fechan, gymaint byth ag y medraf, ond mae'n gywilydd genyf i'w chynyg i chwi am wasanaeth mor hir a ffyddlon." "Faint ydych chwi yn feddwl ydyw'r *bill*"? meddai'r Dr., dipyn yn sarug. Yr oedd e' ar y pryd yn ddiwyd yn ei dynu allan, ac yn y diwedd mae yn ei estyn iddo. Mae'r dyn yn tori allan mewn dagrau, yn cydnabod fod y swm yn ddigon rhesymol, ond yn mhell tuhwnt i'w allu ef i dalu. "Wel," meddai'r Dr., "ddyweda i beth wna i a chwi. Os gwnewch chwi eich

Llw ar y Beibl

yr ewch chwi i'r cwrdd i Bantdefaid prydnawn dydd Sul nesaf am ddau o'r gloch, fe fyddwn ni yn scwâr." "O, Doctor, Doctor," attebai'r dyn, a'r dagrau yn llifo dros ei ruddiau, "byddai yn well gyda fi, ond i mi gael amser, i gasglu'r arian ar fy

nhraed a' nwylo na gwneud y fath amryfusedd a hyny." "Wel," meddai'r Dr.,"chwi sydd yn gwybod oreu, cymerwch i chwi ddeng munyd o amser i ystyried y cwestiwn." Rhwng caredigrwydd y Dr. a chulni ei amgylchiadau, cyn bod y deng munyd drosodd yr oedd y dyn wedi cael y trechaf ar ei ragfarn, ac wedi penderfynu tori yr adduned. "Mae'n anhawdd iawn genyf wneud yr hyn ydych yn geisio, ond wedi'r cwbl alla i ddim pallu. Yr ydych wedi bod mor dyner a charedig tuag attaf, a byddaf o dan rwymau i chwi byth." Mae'r Dr. yn canu'r gloch ; y forwyn yn dod i'r drws. "Dere a'r Beibl yma, Mari." Mae'r dyn yn gwneud ei lw, yn cusanu'r llyfr, ac yn myned i fyny y Sul ar ol hyny i Bantdefaid, yn drist a helbulus ei feddwl. Cymer ei le yn mysg yr addolwyr a'i ben tua'r llawr. Mae gyda'r blaenaf i fyned allan ar ddiwedd y gwasanaeth. Cerdda yn ysgafndroed fel yr ewig tuag adref, gan ddiolch fod ei draed yn rhyddion unwaith eto

Tuallan i Gynteddau Pyrth Uffern.

Ond trwy holl hanes yr "ysmotyn du," fel mae'n *gredit* i'r natur ddynol, mae'r drwgdybiaeth a'r casineb a deimlid at y syniadau yn rhoddi lle i barch at y bobl oedd yn eu proffesu. Mae gan yr Eglwys Undodaidd ei saint, fel Dafis Castellhywel, Dafydd Jenkin Rhys, o Ystrad, a Dafydd Llwyd, Brynllefrith, ac mae cymeriadau felly yn *gurrent coin* sydd yn cael ei harddel yn mhob cymdeithas. Dywedai un o brif weinidogion y Methodistiaid ar yr adeg hono, fod yn rhaid i'r hen Ddafis fyned i'r nefoedd, hyd yn nod os byddai'n gorfod bod yn *satisfied* ar

Stol Dair Troed tu Cefn y Drws.

Mae gwasanaeth anmhrisiadwy gweinidogion Undodaidd y Sir yn achos addysg yn ystod y ganrif ddiweddaf wedi agor lle iddynt mewn miloedd o galonau heb un cydymdeimlad a'u syniadau. Meddylier am ddim ond un ysgol er engraifft—dyweder Pontshan,—ysgol enwog yr hen batriarch Undodaidd, y Parch. Thomas Thomas. Pa nifer o ganoedd o fechgyn a merched o bob parth o'r wlad oddiamgylch, ac o bob enwad a dyrent i'r ysgol am ddeng mlynedd ar hugain, yn ngalonau y rhai mae y parch a'r gwarogaeth a fynwesent gynt at eu hathraw yn parhau o hyd yn elfen yn eu hadgofion am ddyddiau heulog ieuenctid. Mae'r "ysmotyn du" wedi magu *type* o bobl sydd yn addurn i'r natur ddynol, ac yn cael ei werthfawrogi heb unrhyw ystyriaeth o sect a chredo—dynion gonest, anrhydeddus, yn llanw hyd yr ymylon holl ofynion moesol eu galwedigaethau, fel cyfreithwyr a meddygon, masnachwyr, ffermwyr a llafurwyr cyffredin. Yr oedd yn llawenydd calon i mi i ddarllen pwy ddiwrnod y cyfeiriad a wnaed gan Mr. Dovey, *Liquidator* y *National Bank of Wales*, yn ei adroddiad at ddyn ieuanc, aelod o un o deuluoedd mwyaf parchus y darn Undodaidd am dros gan mlynedd, oedd wedi bod am ryw chwe' mis o amser yn *General Manager*. 'Rwyf yn cyfeirio at y diweddar

Mr. Evan Jenkins,

Rhydybenne. Dywedai Mr. Dovey ei fod yn ei ymchwiliadau i sefyllfa'r *Bank* wedi dyfod ar *drack* un dyn gonest, un a deimlai gyfrifoldeb ei sefyllfa, ac a feiddiai sefyll i fyny yn ngonestrwydd ei ddynoliaeth yn nghanol yr anialwch moesol oddiamgylch iddo, ac a geisiai gael rhyw drefn allan o'r tryblith. Ond yr oedd yn rhy ddiweddar ; yr oedd gonestrwydd ei amcanion yn ei arwain i ymrysonau parhaus a'r *Directors*. O dan y *strain* collodd ei iechyd, ac mewn gwirionedd aberthodd ei hun ar allor ei ddyledswydd. Os oes cymeriadau fel hyn yn cael eu magu ar yr "ysmotyn du," ac o dan gysgod y pren Upas—cymeriad-

au a ddaliant eu tir yn ddiysgog yn nghanol profedigaethau tanllyd bywyd y byd diweddar. Mae Undodiaeth, dyweder a fyner yn ei herbyn, yn y drefn ddwyfol, yn cyfatteb i angenion cynyddol yr oesau, ac yn ran o'r cynllun mawr sydd ar waith yn y byd hyd nes y byddo "Duw oll yn oll."

MEDI HEB LAFURIO.

Pregeth a draddodwyd yn Nghyfarfod Blynyddol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru, a gynhaliwyd yn Gellionen, Gorphenaf 9fed a'r 10fed, 1902,

Gan y Parch. T. Arthur Thomas, Llandyssul.

"*A chwi a gewch wybod y gwirionedd, a'r gwirionedd a'ch rhyddhâ chwi.*"—Ioan viii. 32.

"*Eraill a lafuriasant, a chwithau a aethoch i mewn i'w llafur hwynt.*"—Ioan iv. 38.

Mor fynych y clywwn yr hen ddywediad,—"Na hidiwch, bydd y cyfan drosodd can' mlynedd yn awr." "Ie", medd rhywun, "i ba ddyben yw'r holl lafurio, a'r gweithio a'r gofidio, hyn i gyd--can' mlynedd yn awr bydd yr oll wedi myned heibio." Y ffermwr yna, i ba ddyben yr wyt yn chwysu dy fêr i aredig a llyfnu, hau a medi o flwyddyn i flwyddyn,—medi llawer mwy nag oes eisiau arnat dy hun a'th deulu—

Can' mlynedd yn awr

ni fydd dy lafur o un defnydd i ti; pa eisiau gweithio, pa eisiau llafurio, pa angen ffwdanu sydd arnom—can' mlynedd i heddyw, bydd yr holl helynt wedi darfod. Bydd yr hen ddaear yma yn ymdroellu yn ei blaen mor ddihidio a phe baem heb ein geni arni erioed. Daw'r Gwanwyn ar ei dro, yr un mor rheolaidd, a bydd y meusydd yr un mor wyrddion, a'r coed mor ffrwythlawn, a phe byddai ein ychydig waith ni yn achlesu a dyfrhau heb gael ei wneud erioed. Daw'r cynhauaf a chyfoeth aur yn ei gôl na fydd yr un mymryn mwy am ein ychydig waith ni! Dywedai ein hen fardd anwyl o Gastell Hywel—

"Holl ffyrdd llwyddiant a gogoniant
A ddybenant yn y bedd."

Paham yr adeiladwn gapelau heirdd, prydferth, fyddant cyn hir yn un a'r llwch? Paham y brwydrwn frwydrau na ddont a'r un yspail i ni byth?

Paham yr ymladdwn dros addysg os yw ein plant wedi tyfu i fynu?

Can' mlynedd i heddyw, gall fod rhywun wedi llefaru geiriau tebyg i hyn yn agos i'r fangre hon, rhywun sydd, yn ol ei brophwydoliaeth ei hun, yn huno'n dawel ddigon erbyn hyn, rhywun nas gall chwyldroadau daear flino dim arno mwy. A ydyw ei lafur wedi myned yn ofer?

* * * * *

Dechreuwyd llafurio gan

YR HEN DADAU UNDODAIDD

gan mlynedd yn ol: do, cychwynasant y gwaith, a gadawsant ef i'r cenhedlaethau dilynol—eraill a aethant i mewn i'w llafur hwynt. Llafuriodd rhywrai yn galed ar y dechreu, a llafuriodd ereill ar eu hol, ac nid yw'r ffrwyth gweledig yn rhyw fawr iawn hyd heddyw, wedi canrif o waith. Ffrwyth gweledig ddywedais. Ond pwy all fesur a phwyso'r gwaith yn ei effeithiau distaw, araf, anweledig? Pwy all ddirnad posibilrwydd ei ddyfodol?

Fe ddywedir yn aml iawn mai *protest* fu yr achos sefydlu Undodiaeth gan' mlynedd yn ol—*protest* yn erbyn gormes ysbrydol, *protest* yn erbyn dal a dysgu athrawiaethau y mae'r meddwl dynol a'r galon ddynol wedi gael allan oeddent yn *wrong*. Cyfaddefwn fod llawer o hyn yn wir gan' mlynedd yn ol, ond nid dyma ydyw nodweddion amlycaf Undodiaeth heddyw. Yr ydym wedi *protestio* mae'n wir, yr ydym wedi gwrthgilio, ond nid y pethau ydynt nodweddion penaf y symudiad ydym ni yn gynrychioli heddyw. Ymddengys i mi fod Undodiaeth yn cynrychioli un o'r symudiadau crefyddol mwyaf cadarnhaol yn yr holl fyd. Y mae yn gam rhag blaen pendant ar ran dynoliaeth, yn cadw *step* gyda chynydd gwirioneddau Duw i fyny drwy yr oesau, tuag at—

"The one, far off, divine event,
To which the whole creation moves."

* * * * *

Mae'r ystormydd wedi curo am oesau ar yr hen glogwyn llwyd yna sydd yn hongian uwch yr afon; ac y mae'r haul wedi taflu ei gysgod ar y dwfr am ganrifoedd lawer weithian. Ond un noson gesyd y rhew ei letem galed o iâ dan yr hen glogwyn; araf ond sicr; distaw a graddol y gwthia y rhew ei holl bwerau dan sail y graig—ac wele pan gwyd yr haul yn y boreu, bydd yr hen glogwyn wedi ei daflu yn falurion i'r dyfroedd islaw! Y mae dylanwad distaw, ie, ac oer fel yr ystyrir ef weithiau, yspryd gwirionedd pur, yn fwy effeithiol yn y diwedd na holl ystormydd a gwres diwygiadau'r oesau. Y mae Undodiaeth wedi cynyddu yn fawr yn ystod y ganrif sydd wedi myned heibio. Y mae ei dilynwyr wedi cynyddu mewn nifer; y mae ei chapelau wedi amlhau. Y mae ei hadnoddau bron yn ddihyspydd; ond yn fwy na dim, y mae wedi myned yn mlaen yn nghyfeiriad gwirionedd. Nid yn unig y mae Undodiaeth wedi cynyddu ynddi ei hun, ac wedi dadblygu yn nghyfeiriad ysbryd gwirionedd, ond yn fwy na dim y mae'r ysbryd hwn o ryddymofyniad i'w weled yn lefeinio'r enwadau mawrion o'n deutu yn mhob cyfeiriad. Myn y gwirionedd lwyddo yn y diwedd, a'r gwirionedd a'n rhyddha ni.

* * * * *

Nid ydym am ddinystrio'r gwaith sydd wedi ei wneud gan Galfiniaeth, nac hyd yn nod gan Babyddiaeth chwaith; dichon fod Pabyddiaeth a Chalfiniaeth yn risiau angenrheidiol ar y ffordd i fyny i gyfeiriad gwirionedd pur. Y peth ydym am honi yw—fod Undodiaeth yn gam yn mlaen—y mae yn nes at y gwirionedd fel y mae, ac yn nes hefyd at ryddid.

* * * * *

Y mae chwilwyr am y gwirionedd wedi eu camddeall a'u cospi gan ddynion yn mhob oes. Teflid i gar-

char ac weithiau dienyddid fferyllwyr (*alchemists*) yr oesoedd tywyll, am y credid eu bod mewn cymundeb a'r un drwg. Dioddefodd canoedd o Brotestaniaid dan ffagodau Rhufain pan oedd Pabyddiaeth yn ei grym; a gellir enwi amil i un yn yr oes o'r blaen, ac hyd yn nod yn yr oes hon a erlidiwyd am geisio'r gwirionedd am y Beibl ac am Iesu o Nazareth. Y rhai na chredant yn y credoau poblogaidd a dynwyd i fynu gan ddynion ganoedd o flynyddau yn ol, a waradwyddir heddyw, ac a fygythir gan rai a fflamiau annwn yn y byd a ddaw! Graddol y cyfyd haul gwirionedd dros y tir; amherchir dynion eto am chwilio am wirionedd, a chredu yn gydwybodol yn y gwirionedd, 'nol fel y maent hwy yn ei ddeall. Y mae nos yn aros eto yn nghilfachau'r cymoedd, ac ambell i garchar eto yn aros cydwybodau y rhai na fedrant dderbyn gwirionedd yn ol y werin.

Fel y dring y teithiwr gopa'r Wyddfa foreu o haf i weled y wawr yn tori, tra'r wlad dan ei draed yn orchuddiedig gan gymylau tewion y cyfddydd, felly mae chwilwyr y gwirionedd yn dringo, yn erbyn llawer o anhawsderau, y bryn serth ac uchel hwnw lle mae haul gwirionedd i'w wel'd yn tori dros y tir. Caled yw dringo'r mynydd, ond mor bur yw'r awyr, mor rhydd yr anadlwn, mor ardderchog yw lliwiau gogoneddus y wawr! Ar y tir llydan obry, gwelwn rai yn ymborthi ar bethau goreu'r byd—ambell i *living* gyfoethog, ambell i esgobaeth fras, ie, ac ambell i weinidogaeth dra chyffyrddus. Nid yw y pethau hyn i'w cael wrth ddilyn y gwirionedd. Ychydig o honom sydd i'w cymharu a'r rhai sydd ar y gwastad obry, ond y mae'r ychydig hyny yn ddewr, yn gryf, yn benderfynol; eiddom ni yw yr awyr deneu eglur, a thes ysblenydd tawel—gwirionedd a rhyddid. Mae'r iawnffyddwr obry'n tynu'r dorf ar ei ol, drwy ei hyawdledd melus, neu yn eu hysgwyd gan wynt nerthol dychrynfeydd Gehenna!

Mae'r Eglwys fawr Gadeiriol, a *sentiment* canrifoedd yn ei goreuro, a chelfyddyd yr oesau wedi ei drysori yn ei meini diddarfod; mae'r *organ* a'r eurgor o'i mewn, a'i phigdyrau yn cyfeirio yn fawreddog tua'r nefoedd; mae hithau'n dal miloedd o'i mewn gan ei swyn a'i hynafiaeth a'i chelfyddyd. Ond gadawsom hi.

Ond mor brydferth yw'r hen syniad materol a barddonol am orielau'r nefoedd, am ei thelynau aur, am ei phalmwydd gwyrddion, am afon y bywyd yn rhedeg drwyddi, am ei cherubiaid a'i seraphiaid, "ardal lonydd yr aur delynau," gorphwysfa dragwyddol y saint. Mor anhawdd ydyw gorfod tynu'r adeilad gogoneddus hwn i lawr fel cread dychymygplentynaidd; neu feallai y byddai yn fwy addas ei alw yn gread ardderchog dyhead y galon ddynol.

Yr ydym ninau yn credu mewn Nefoedd, ond nid nefoedd fel hon sydd mor ddisylwedd a'r bwa amryliw yn nechreu Ebrill. Gydag hiraeth, ie, a phoen bron y taflwn heibio yr hen syniadau hyn, sydd wedi myn'd yn hen a chysegredig yn ein plith; ond fel yr erys goleuni wedi i liwiau gau yr enfys ddiflanu, felly mae'r nefoedd yn aros eto, ond nid fel y paentir hi yn lliw plentyndod ac iawnffyddiaeth. Y mae darfelydd poeth dynoliaeth ieuanc wedi cyneu fflamiau uffern. Y mae Dante wedi adeiladu uffern digon mawr ac ofnadwy i darfu yr un pechadur, gallwn dybio; y mae Milton wedi creu diafol digon cyfrwys, galluog a mawreddog i ddenu ac i hudo neb byw. Ond fel y mae'r tân yna yn diffodd ar yr aelwyd yn mhelydrau cryfion yr haul, felly y mae fflamiau uffern hefyd wedi diffodd dan belydrau gwirionedd.

Y mae syniad uchaf am foesoldeb yn dangos na ellir magu cymeriad drwy gosb na thrwy wobr. Meithrinir cydwybod ci drwy ofn y wialen, drwy gynyg bara iddo am ymddwyn yn dda: ond wedi'r oll *cydwybod ci* fydd ganddo, ac fel ci y disgwylir iddo ymddwyn. Ychydig iawn yn uwch yw'r cymeriad moesol hwnw a feithrinir ag ofn uffern, ac addewid nefoedd. Plant yn unig a drinir yn gyffredin a *gwialen a gwobr*. Ac yn

ei phlentyndod y mae dynoliaeth sydd raid wrth driniaeth cosb a gwobr. Aml y clywn y ddiareb Saesneg "*Honesty is the best policy*" yn cael ei dweyd wrth ein plant. Mewn gwirionedd dal safon isel iawn mewn moesoldeb o'u blaen yr ydym wrth ddyfynu diareb fel hon.

Byddwch onest am mai bod yn onest sydd yn *talu* oreu. Byddwch yn dda, am ei bod yn talu yn well na bod yn ddrwg. Byddwch yn grefyddol, am ei bod yn fwy proffidiol yn y byd hwn ac yn y byd a ddaw. Mae y pethau hyn yn wirionedd i gyd—y mae gwahaniaeth mawr rhwng y dyn sydd yn onest am fod onestrwydd yn talu, a'r dyn hwnw sydd yn onest o achos ei fod yn credu fod hyny yn ddyledswydd arno —y dyn sydd yn *treio* bod yn onest er ceisio bod yn berffaith—mewn gair, y dyn sydd yn onest er mwyn bod yn onest. Mae'r un gwr gonest yn *caru'r tâl*; y mae'r gwr gonest arall yn *caru gonestrwydd.* Y mae fel pe bae un gwr yn priodi gwraig er mwyn ei chyfoeth, a'r llall yn priodi gwraig er ei mwyn ei hun. Dyna'r gwahaniaeth.

Dyna beth arall mae Undodiaeth yn geisio ato yw, gonestrwydd—gonestrwydd pen a chalon. Anonest yw'r weithred dda a wneir er mwyn gwobr; anonest hefyd yw'r gredo a orphwys ar awdurdodau amheus. Gyrodd John Stuart Mill ddychryn a braw i galonau y byd am ei onestrwydd. Dywedodd nad allai ef ddim galw yr hyn oedd yn *wrong* ar y ddaear yn *right* yn y nefoedd; yr hyn sydd yn anghyfiawn ar y ddaear, mae'n rhaid ei fod yn anghyfiawn yn y nefoedd; ac os i uffern y câf fi fyn'd am ddweyd hyn a chredu hyn, i uffern yr âf fi. Mor anhawdd dadrys oddiwrth ein hen syniadau yr hen bethau gredai ein tadau a'n teidiau a'n cyndeidiau am ganrifoedd. Gwir y dywed Carlyle mai maen tramgwydd mwyaf gwirionedd yw ffasiwn neu arferiad. Y mae cyfnewidiadau mawrion wedi myned dros Undodiaeth, ac yn wir dros holl grefyddau'r byd yn ystod y can' mlynedd diweddaf. Cyfnewidiadau mawrion; ond araf, er hyny, y maent yn gwneud eu hymddangosiad. Yn araf y daw pob peth mawr. Rhed y nant yn gyflym, ond araf y rhed yr afon ddofn. Tyf yr aderyn mewn ychydig wythnosau, ond cymer flynyddau maith i ddyn ddyfod i'w lawn faintioli.

"Ni seiliwyd cred na chrefydd,
Na Rhufain deg mewn un dydd."

Cymerodd y diwygiad Protestanaidd ddwy ganrif i addfedu—araf y lefeinir cymdeithas a phob gwirionedd newydd. Gall seren wib (*comet*) fflachio am enyd yn nyfnder y nos, ond araf y taena y wawr ei hesgyll. Araf y myn ddynoliaeth daflu ymaith ei hen wisgoedd, ac araf i ail wisgo'r newydd.

Yn yr hydref gellir gweled blagur y gwanwyn dyfodol yn graddol weithio ymaith yr hen ddail crinion. Y mae'r newydd yn graddol weithio dan seiliau'r hen; ac am amser y mae'r hen a'r newydd, un yn tyfu a'r llall yn gwywo, gyda'u gilydd. Mor araf y tyr y gwanwyn dros y wlad. Pwy feddyliai am ei symudiadau araf yn mhlith coed crinion yr hydref?

Y mae'r

EGLWYSI IAWNFFYDDOL

eto yn gwisgo dail crinion hen syniadau cyfeiliornus; ond y mae gwanwyn newydd yn aflonyddu yn eu plith—y mae dylanwadau newyddion yn graddol wthio ymaith yr hen syniadau—a chyn hir, mor sicr ag y mae Ebrill wyrdd i ddo'd 'rol llwydrew'r gauaf, daw'r dylanwadau i'r amlwg maes o law. Mae hen ddefodau eto yn aros; ond maent yn graddol grino ymaith. Mae hen gredoau gwag yn aros, ond maent yn graddol gwympo un ar ol un fel dail yr hydref. Araf, araf yn aml, ond sicr. Y mae llawer o ddail yr hen Feibl yma wedi cyfnewid o dan ddylanwad dysg ac ymchwil; ydynt, ond y mae dail newydd yn blaguro yn eu lle.

Y mae dail Beibl natur—Beibl arall Duw—yn dal i gynyddu. Y

mae'r galon ddynol yn blaguro yn fwy o hyd, ac yn dangos i ni enw'r Arglwydd Ior mewn llythyrenau eglurach nag erioed !

Ie, araf y mae hyn yn myn'd yn y blaen ; bychan oedd Undodiaeth gan' mlynedd yn ol, a chydmarol fychan hyd y dydd heddyw. Disgwyliai ein tadau y byddai Undodiaeth dynu'r enwadau eraill ar ei hol —y byddai dynoliaeth yn fuan yn ei choleddu. Ond gwyddom yn well heddyw. Nid gwaith Undodiaeth yw tynu'r dorf ar ei hol. 'Does genym hi ddim danteithion i foddio'r *crowd.* 'Does gyda ni ddim pregethau yn llawn o deimladau pruddfelus, yn llawn o *sentiment* blodeuog, yn llawn o'r peth hwnw sydd yn gyru'r gynulleidfa fawr yn foddfa o ddagrau ; na, nis gallwn gynyg "*the luxury of tears*" hyd yn nod iddynt; nid oes yn ein hoedfaon ddyblu a threblu emynau gwag-felus tebyg i—

> "Ni bydd diwedd
> Byth ar swn y delyn aur."

Na, ein hefengyl ni yw gweithio, ac nid ydym yn addaw cyngherdd o delynau aur i chwi ar ddiwedd y dydd—*more work,* swn y morthwyl, swn gwaith, swn cynydd, dyna'r swn goreu—gwell na mil o delynau aur ; ein *cân* ddylai fod cysuro eraill, ein *enjoyment* ddylai gweithio dros eraill, ein *gweddi* ddylai fod gweithred o gariad i'r neb y down i gyffyrddiad a hwy. "*He prayeth best who loveth best,*" canai Coleridge. Y mae pwys o dduwioldeb ymarferol a sylweddol yn well na thunell o orfoleddu a bloeddio a dawnsio. Y mae gweithred dda yn beth dra gwahanol i deimladau aruchel. Digon hawdd wylo am helynt y plentyn bach, carpiog, y darllenwn am dano yn y nofel, ond faint o honynt sydd yn ein pasio yn y stryd a'r heol bob dydd ?

Yr oedd yna unwaith foneddiges Rwssiaidd yn myned i'r *theatre* yn ei cherbyd gorwych ar noson oer yn y gauaf—noson oer mewn gwlad oer. Rhoddodd *orders* i'r *coachman* i dd'od yno yn gynar i'w disgwyl allan, rhag ofn y byddai y *play* drosodd cyn iddo dd'od.

Yr oedd orielau'r chwareudy'n orlawn o aristocratiaid penaf y ddinas, yn eu haur, a'u *diamonds* a'u perlau, a phob peth o'u hamgylch yn hardd, yn wych ac yn gyffyrddus. Er fod y rhew a'r eira yn teyrnasu oddiallan, yr oedd y chwareudy eang mor gynhes a phe b'ai yn nghanol haf. Yno y bu y foneddiges gydag eraill o'i bath am oriau yn dilyn helyntion *aeres* ffug y chwareu, ac yn foddfa o ddagrau wrth ddilyn ei gofidiau a'i phoenau a'i phrofedigaethau dychmygol. Chwareuid tônau prudd ar y tannau, a throsglwyddid pawb i deimladau toddedig a chysegredig fel y tybient. Daeth y *play* i ben ; gwisgodd y foneddiges ei dillad cynhes, aeth allan, gwelodd ei cherbyd yn aros i'w disgwyl wrth y drws, yn ffyddlon i'w gorchymyn ; gwaeddodd ar y *coachman*, ond ni chafodd ateb ; gwaeddodd eto, ond yr oedd y *coachman* druan wedi rhynu i farwolaeth wrth ddisgwyl ei feistres allan.

Pa werth oedd dagrau a theimladau'r foneddiges hon tuag at gymeriad ffug y chwareudy, tra cig a gwaed yn fferu i farwolaeth wrth y drws. Gall pregeth gyffwrdd a'n teimladau mwyaf cysegredig, ein gyru i wylo'n hidl, ac i deimlo eneiniad y nefoedd yn disgyn ar yr oedfa, ond pa werth os mai ffug yw'r cyfan, heb yr un weithred i ddilyn. Nid *llai* o deimlad sydd arnom eisiau mewn crefydd, ond *mwy* o *reality* ; dyna yr ymgeisiwn ni ato. Mwy o sylwedd, mwy o onestrwydd, mwy o wirionedd, rhagor o oleuni, mwy o ryddid.

Ar ddiwedd can' mlynedd o Undodiaeth, at beth yr edrychwn ni yn mlaen ? Ni chredaf y gallwn ni helaethu llawer o'n terfynau. Mae'r ffaith fod syniadau Undodaidd, ein dymuniadau a'n gobeithion yn cael lle mor gyffredinol yn yr Eglwysi eraill yn sefyll ar y ffordd i ni weled eglwysi Undodaidd yn britho'r gwledydd.

Ond os na wna yr eglwysi Undodaidd lwyddo fel y cyfryw, ac i ddyfod

yn un o'r eglwysi mwyaf yn yr holl fyd, fe wna ei syniadau a'i hegwyddorion lefeinio mwy a mwy o'r eglwysi Cristionogol o hyd, ac fe erys y fuddugoliaeth yr un o hyd.

Ac mae'r fuddugoliaeth hon mor sicr a thoriad y wawr boreu foru. Pan edrychodd Galileo drwy ei ysbienddrych ac y darganfyddodd leuadau Jupiter, golygai hyny fod yr hen ddamcaniaethau seryddol i farw, ac fod yn rhaid i un arall gymeryd ei lle ; ac er iddi gymeryd canoedd o flynyddau cyn i'r cyfnewidiad dd'od, ond d'od oedd raid iddo, am mai gwirionedd Dwyfol ydoedd.

Felly y gall gymeryd mil o flynyddau cyn y daw ein dymuniadau a'n gobeithion i ben ; ac yn y cyfamser gadawer i ni fod yn amyneddgar, yn obeithiol ; gadawer i ni gysegru ein hunain yn ddifrifol ac o'r newydd i'r gwaith ; ac os mai chwareu rhan y seren foreu a wnawn ni, yr hon sydd yn diflanu pan gwyd haul y bore, gadewch i ni wedi'n lawenhau yn muddugoliaeth y goleuni, y gwirionedd, y cariad, dros y rhai y safwn.

Y CYFARFOD BLYNYDDOL.

Mae'r bregeth yn meddu atdyniad i'r Cymry o hyd ; ac mai iddi le cynes yn nghalon y gwir Gymro. Pregeth ac anerchiad crefyddol sy'n cyfansoddi uchelwyliau y gwahanol enwadau. Nis medr yr aelod crefyddol freuddwydio am uchelwyl heb "bregeth." Mae'n *factor* bwysig yn hanes mwynhad y Cristion. Daw addolwyr o bob cyfeiriad i'r uchelwyl i wrando arni. Mae uchelwyliau yr holl enwadau yn enwog am eu cynulleidfaoedd mawrion yn Nghymru. Gwir y gwelir llawer yn d'od i wrando'r bregeth yn y cyfarfodydd mawr ydynt bron anghofio'r ffordd i wrando oherwydd eu hanffyddlondeb a'u difaterwch diesgus am fisoedd lawer.

Dyna fel y mae gyda ni fel Undodiaid. Llawer yn d'od gydag osgo fawreddog a chamrau diwyrni i'r uchelwyl flynyddol, tra yr anghofiant hen gyrchfan eu tadau yn hollol. Nid ydym am wangaloni neb yn y cyfeiriad hwn, ond carem weled ychydig gysondeb yn nghymeriad pob un sy'n honi perthynas â'r enwad Undodaidd. Nid oes dim fedr wenwyno sefydliad fel difaterwch ac esgeulusdra yn mhlith aelodau. Llawer gwaith y disgynodd cyfaddefiad fel hwn ar fy nghlust :— "Aelodau gyda'r Undodiaid oedd fy nhad a mam, a phe buaswn i yn byw yn agos i'r capel, dyna'r fan y buaswn inau yn myn'd." Undodwr os rhywbeth. Sisialaf finau yn ddistaw rhyngwyf a mi fy hun, "rhagrithiwr os dim." Yn ddiddadl mae angen diwygiad yn y cyfeiriad hwn.

Yr uchelwyliau hefyd sy'n datguddio gweithrediadau ac hanes yr enwadau. Trwy y cyfryngau hyn y gellir casglu beth yw hyd a lled y symudiadau wneir tuag at ryddid crefyddol a duwinyddiaeth resymol yn mysg y gwahanol eglwysi. Yma y daw cudd-feddyliau i'r goleu, yr anwybyddir hen syniadau a chyfundrefnau, ac y mabwysiedir y newydd yn eu lle. Yn ystod y gorphenol yn hanes holl enwadau Cymru, cladwyd llu o bethau heb obaith am adgyfodiad byth mwy ; mae yna lawer o bethau heddyw wedi gorphen eu

taith dymhorol, ond mae arafwch rhyfeddol yn nglŷn a'u claddedigaeth oherwydd rhyw barch angerddol tuag atynt, a gall myrdd o bethau lefain heddyw a dweyd, "yr ydym beunydd yn marw."

Tystiolaetha pregethau ac anerchiadau y gwahanol uchelwyliau dros gywirdeb y gosodiadau uchod, er o bosibl yr edrychir arnynt gan rywrai yn feiddgar. Mor belled, yr ydym ni fel enwad yn y *front*, ond yn wir teimlwn fod angen i ni fod yn fyw i'r darganfyddiadau diweddaraf, i ddysgeidiaeth gwyddor, &c., neu fe gollwn yr arweinyddiaeth. Mae'r dduwinyddiaeth newydd yn cael ei llyncu fel hufen gan flaenoriaid iawnffyddol ac ereill, a thystiolaeth ddigamsyniol arwyddion yr amserau yw fod yna ddiwygiad cyffredinol a sylweddol yn ymyl. Gallwn fentro dweyd heddyw fod trwst y diwygiad yn brawf o'i agosrwydd.

Cynaliwyd uchelwyl flynyddol ein henwad eleni yn Gellionen a Threbanos, ar ddyddiau Mercher ac Iau, y 9fed a'r 10fed o Orphenaf. Capel gwyn ar gopa mynydd yw Gellionen —cartref rhydd-ymofyniad am dros ddau cant o flynyddau. Mae i'r capel barch dwfn yn mhlith yr ardalwyr ar gyfrif ei henaint a phobpeth cysylltiedig ag ef. Mae fel meudwy ar y mynydd, ond er hyny yn fangre gysegredig i'r Undodiaid sydd wedi arfer cyrchu iddo, ac yn mynwent yr hwn y gorwedd cyrff meirw perthynasau anwyl a hoff. Er y parch angerddol tuag at yr hen Jerusalem, eto sylweddolodd yr Undodiaid hyn fod Gellionen yn anghyfleus, ac felly penderfynasant godi ysgoldy bychan yn Nghraig Trebanos er ceisio cadw'r achos yn fyw a lluosogi nifer y mynychwyr. Coronwyd eu hanturiaeth â'r fath lwyddiant nes y gosodwyd angenrhaid arnynt i adeiladu capel eang yn ymyl yr heol fawr sy'n arwain o Bontardawe i Abertawe. Rhaid darparu o hyd i gyfarfod ag amgylchiadau a gofynion newydd.

Ar ol ychydig ragymadrodd fel yna deuwn at y cyfarfodydd :—

Nos Fercher

cynhaliwyd cymundeb agored am 6.30, pryd y gweinyddwyd yn hynod o bwrpasol gan y Parch. J. H. Davies, Y.H.

Am 7 o'r gloch cafwyd cyfarfod yn yr hwn y cafwyd amryw anerchiadau byw er dathlu canmlwyddiant y Gymdeithas. Dechreuwyd gan y Parch. R. C. Jones. Cymerwyd y gadair gan y Llywydd, y Parch. W. James, B.A., Y.H., yr hwn a dystiolaethodd mai Jenkyn Jones, pan yn gwrthdystio yn erbyn Calfiniaeth, fu'n gyfrwng i ddwyn oddiamgylch y mudiad Undodaidd. Corpholwyd y cyfeisteddiad cyntaf yn Castellnedd, dydd Gwner, 8fed o Hydref, 1802. Yr aelodau oeddent y Parchn. Josiah Rees, Gellionen : Morgans, Blaengwrach ; Thomas Davies, Cefn ; David Davis, Castellnedd (mab henaf David Davis, Castell-Hywel) ; Mr. John Rowlands (tadcu Miss Rowlands a fu farw yn ddiweddar yn Nghastellnedd) ; a'r hybarch fardd, Edward Williams (Iolo Morganwg) —*Cabinet* o ddynion enwog yn mhlith yr Undodiaid Cymreig. Dyma ddynion a godasant faner rhyddid yn nghanol anfanteision lawer. Ar ol gwneud y cyfeiriadau uchod, sylwodd y Llywydd fel yr oedd pob enwad heddyw wedi eu trwytho gan syniadau Undodaidd. Darllenodd ranau o erthygl ymddangosodd yn y *Goleuad* gan y Parch. Dafydd Jones, Garregddu, er profi fod gosodiadau'r tadau yn syrthio allan o'r pregethau iawnffyddol, ac fod syniadau iachach a glanach yn cymeryd eu lle.

Yn ail, cafwyd anerchiad hwyluso gan y Parch. R. J. Jones, M.A., ar y testyn "Paham yr ydwyf yn Undodwr yn ngwyneb cyfnewidiadau sylweddol y Ganrif?" Derbyniodd Mr. Jones Undodiaeth i fewn gyda llaeth y fron, ac ni chafodd unrhyw achos i ymadael a hi. Gwasgodd ar feddyliau y rhieni y ddyledswydd sy'n orphwysedig arnynt i egwyddori eu plant yn y syniadau goreu a mwyaf rhesymol, ac i ofalu peidio esgeuluso tywys eu plant ar hyd y llwybrau

hyny a arweiniant i ryddid a gogoniant meibion Duw. Dywedodd Mr. Jones, hefyd, ei fod yn Undodwr oddiar argyhoeddiad, ac nad oedd cyfnewidiadau y ganrif ond yn ei wneud yn fwy o Undodwr o hyd. Cafodd efe y fraint o ddarllen yr YMOFYNYDD cyntaf ymddangosodd erioed, ac er fod yna lawer o welliantau wedi eu geni, eto ei fod yn cael bwyd ysbrydol a meddyliol hyd yn nod o'r hen rifynau. Tair colofn fawr crefydd yr Undodwr yw Duw, dyledswydd, ac anfarwoldeb.

Ar ei ol cododd y Parch. L. Jenkins Jones, cynrychiolydd y Gymdeithas Undodaidd, Llundain, a chyflwynodd gydymdeimlad trylwyraf a dymuniadau da y Gymdeithas hono i ni fel Undodia'd Cymreig. Dywedodd fel yr oedd aelodau y Gymdeithas yn cydlawenhau â ni yn ein llwyddiant a'n cynydd yn Nghymru. "Mae iawnffyddiaeth," meddai, "wedi gwel'd ei hamser goreu, ac y mae dedfryd marwolaeth yn grogedig uwch ei phen hi." Mae iawnffyddiaeth yn dangos i'r byd nad oes ganddi unrhyw sylfaen, oblegid y mae yn codi ei llaw yn erbyn Duw ac yn erbyn dyn, felly anmhosibl iddi lwyddo. Gelyn mwyaf crefydd heddyw yw Agnosticiaeth, a rhaid i'r Undodwr ymdrechu argyhoeddi y byd o fodolaeth Duw, ac i sefydlu teyrnas fydd yn cael ei llywodraethu, nid gan frenhinoedd a chyfalaf, ond gan Dduw y Tad.

Yn nesaf cafwyd anerchiad gan y Parch. D. J. Williams, Merthyr, ar y testun, "Dyledswydd yr Undodwr tuag at y presenol." Gwnaeth sylwadau fel hyn :—(1) Fod eisieu i bob Undodwr ofalu am ei ddyledswyddau arbenig ei hun ; (2) Fod eisieu adeiladu o hyd wrth dynu i lawr, ac fod yr adeiladu y mwyaf pwysig o'r ddau waith ; (3) Fod eisieu byw yr argyhoeddiadau mewn bywyd ; (4) Fod eisieu ffyddlondeb dewr i'r gwirionedd. Mae'r manteision presenol yn aneirif, ac felly apeliodd yn ddifrifol at bob Undodwr i fod ar ei oreu i ledaenu ei argyhoeddiadau nes creu daear newydd a nefoedd newydd.

Ar ol yr uchod anerchwyd y cyfarfod gan y Parch. W. Tudor Jones, F.R.G.S., ar "Gyfnewidiadau Duwinyddol y Ganrif." Dywedodd (1) fod cyfnewidiadau pwysig wedi cymeryd lle, ac fod y cyfnewidiadau hyn wedi d'od i fodolaeth ar waethaf yr enwadau uniongred. Y syniad am Dduw wedi cyfnewid—nid brenin mwyach, ond Tad. Ofn wedi rhoddi lle i gariad. Cwymp oedd pwnc y pregethau gynt, ond heddyw dadblygiad. Iawn ddirprwyol oedd yr unig falm ar gyfer doluriau pechaduriaid er's ychydig flynyddau yn ol, ond yn awr dechreuir dwyn yn mlaen gynlluniau newydd er achub y byd, &c. (2) Sylwodd fel y mae'r cyfnewidiadau hyn yn cael eu derbyn gan yr holl enwadau er eu culni a'u rhagfarn.

Yn olaf siaradwyd gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca, ar "Ragolygon yr Enwad." Yr oedd Mr. Davies yn *optimist* mawr, a darfu iddo mewn araeth flodeuog addaw cynhauaf gogoneddus maes o law. Mae'r wawr yn teneuo tywyllwch ein dyfodol, a gwelir gobaith yn serenu'n fwyn trwy'r niwl nes calonogi yr Undodiaid sy'n noswylio yn yr anial, a daw y llais megis o'r goedwig gyfagos i ddweyd fod bryniau'r wlad yn y golwg. Ymgalonogwn, ymgryfhawn, ac awn rhagom.

DYDD IAU—Y PWYLLGORAU.

Am 9 o'r gloch cynhaliwyd Pwyllgor y Gymdeithas ; am 10.15 Pwyllgor yr Ysgol Sul. Gwn y bydd nodiadau ereill yn cael eu gwneud parthed gweithrediadau y pwyllgorau, felly gwell yw i mi yma adael y cyfryw gydag awgrymu y byddai yn fanteisiol pe gellid sicrhau casgliadau oddiwrth yr holl eglwysi Cymreig tuag at y Cymdeithasau uchod. Gresyn meddwl fod un eglwys yn gwrthod casglu. Gobeithio y gwelir gwelliant y flwyddyn hon.

YR ANERCHIAD.

Am 11 o'r gloch cafwyd yr anerchiad gan y Llywydd. Y testun dewis-

edig oedd "Yr Ysmotyn Du." Dyna'r enw roddir gan lawer i'r ardal Undodaidd yn Sir Aberteifi. Yr oedd yr anerchiad hwn yn deilwng o'r awdwr, ac yn adlewyrchu gwedd ddymunol iawn ar hanes Undodiaeth yn Ngheredigon a manau ereill. Y tebygolrwydd yw y câ ei hargraffu fel y gall pawb ei phwrcasu a'i darllen a'i barnu drostynt eu hunain. Carwn gymhell pawb i'w phrynu pan y ceir mantais, a'i hastudio yn ofalus, oblegid teimlaf yn bur sicr y bydd hyny yn creu serch adnewyddol yn eu mynwes tuag at y tadau ac ereill lafuriasant yn wrol a dewr dros y syniadau sy'n anwyl genym ; ac nid hyny yn unig, ond bydd darlleniad gofalus o honi yn sicr o greu awyddfryd newydd yn mhawb i fod yn fwy gwasanaethgar fel aelodau yn ein capelau nag erioed o'r blaen. Awd trwy y rhanau arweiniol gan y Parch. D. Rees, Rhondda. Yr oedd Mr. Rees wedi addaw siarad yn y cyfarfod nos Fercher, ond methodd dd'od i fyny a'i addewid. Nid diffyg ewyllus a'i rhwystrodd, ond diffyg gallu oherwydd anhwylder corfforol.

Cyfarfod yr Ysgol Sul.

Am 1.30 o'r gloch darllenwyd amryw o bapyrau dyddorol a galluog ar wahanol bynciau yn dal perthynas â'r Ysgol Sul fel y canlyn :—(1) "Rhai agweddau o waith yr Ysgol Sul," gan y Llywydd, y Parch. D. Evans, Cribyn ; (2) "Dyledswydd rhieni tuag at yr Ysgol Sul," gan y Parch. Jenkyn Thomas ; (3) "Dyledswydd plant tuag at yr Ysgol Sul," gan y Parch. D. Evans, Cwmbach ; (4) "Amcan a dyledswydd yr athraw," gan y Parch. W. J. Phillips, Nottais. Deallaf y bydd y papyrau uchod mewn rhyw ffurf yn cael ymddangos yn yr Ymofynydd, ac afreidiol yw i mi geisio cyflwyno amlinelliad o honynt ar hyn o bryd. Hefyd awgrymwyd tri o bethau gan y Parch. L. Jenkins Jones a ddylent gael ein sylw dyladwy :—(1) Y priodoldeb i "Adran yr Ysgol Sul" uno â'r Gymdeithas Seisneg ; (2) Y dylid trefnu dosbarthiadau canolog ar gyfer ein hathrawon ; (3) Y priodoldeb o gyhoeddi llyfrau addas at wasanaeth yr ysgolheigion. Cafwyd ychydig eiriau yn llawn sêl a brwdfrydedd gan y Parchn. T. Lloyd Jones (Llywydd newdd y Gymdeithas) ar y ddyledswydd fawr i edrych ar yr Ysgol Sul fel rhan o'n hachos, ac fel y rhan bwysicaf o dan lawer iawn o ystyriaethau. Mae Ysgol Sul Mr. Jones yn Lerpwl yn rhifo 750. Gobeithio y cawn ninau yn Nghymru wel'd diwygiad cyffredinol yn yr Ysgolion Sul yn ystod y flwyddyn ddyfodol.

Cwrdd Pregethu Cyntaf.

Dechreuwyd gan Mr. Simon Jones, B.A., myfyriwr o Goleg H. M. C., Manchester, a thraddodwyd dwy bregeth dda gan y Parchn. L. Williams ac R. C. Jones. Testyn y blaenaf oedd Salm xcvii. 11. Dangosodd fel yr oedd y dyn da yn cael cysur a dyddanwch ar daith bywyd. Cyfaddefai fod y dyn da yn cyfarfod â rhwystrau, treialon, ac ystormydd o bob rhyw, ond fod y daioni lecha yn ei galon yn ei helpu i wel'd llaw y Tad goreu, ac felly i ymfoddloni. Dangosodd fel yr oedd yr Arglwydd yn gofalu am seintiau y ddaear ac yn eu gwneud yn anorchfygol. Testyn yr ail oedd Matthew vi. 10. Sefydlwr teyrnas oedd Iesu Grist. Yr oedd ereill wedi son ac wedi breuddwydio am y deyrnas, ond Iesu Grist fu'n alluog i'w sefydlu ar y ddaear. Nid rhywbeth pell yw'r deyrnas, ond rhywbeth oddifewn yn y galon. Teyrnas ysprydol ydyw ; ac fel y deallir ac yr ufuddheir i ofynion a hawliau y deyrnas hon, i'r graddau hyny y daw gwyneb y ddaear yn fwy tebyg i wyneb y nefoedd.

Cwrdd Pregethu olaf.

Darllenwyd a gweddiwyd gan y Parch. J. P. Kane, Dowlais, a phregethwyd dwy bregeth nerthol gan y Parchn. T. A. Thomas a John Davies. Testyn Mr. Thomas oedd Ioan viii. 38 a iv. 38. Carem weled hon wedi

ei chyhoeddi yn yr YMOFYNYDD; ac yn y gobaith y sylweddolir fy nymuniad, ni anturiaf roddi braslun o'r hyn ddysgodd. Testyn Mr. Davies oedd 1 Ioan ii. 17. Sylwodd yn fyr ond mewn modd effeithiol ar y ddau bwnc canlynol: (1) Cyfnewidioldeb y byd: (2) Anghyfnewidioldeb pethau crefydd.

Dygodd hyn res o gyfarfodydd rhagorol i derfyniad hapus. Diolchodd gweinidog y lle i'r pregethwyr, a phawb fu'n hwylusu y gwaith am eu caredigrwydd a'u hymdrechion i ddwyn y fath gyfarfodydd penigamp oddiamgylch. Cynygiodd y Parch. R. J. Jones, ac eiliwyd gan y Parch. W. James, fod pleidlais wresog o ddiolchgarwch yn cael ei chyflwyno i'r chwiorydd ac ereill am barotoi bwyd, oblegid yr oedd yno gyflawnder i bawb, ac hefyd i'r frawdoliaeth yn Gellionen am dderbyn y cyfarfodydd gyda'r fath barodrwydd a'r fath wresogrwydd.

Enwau y gweinidogion ac ereill oedd yn bresenol:—Parchn. R. J. Jones, M.A., Aberdar; J. Davies, Alltyplacca; R. C. Jones, Llanbedr; W. James, B.A., Y.H., Llandyssul; J. H. Davies, Y.H., Cefn; L. Jenkins Jones, Plumstead; T. Lloyd Jones, Lerpwl; D. Evans, Cribyn; W. J. Phillips, Nottais; Jenkyn Thomas, Pendleton; D. J. Williams, Merthyr; W. Tudor Jones, F.R.G.S., Abertawe: T. A. Thomas, Pantdefaid; L. Williams, Rhydygwin; D. Rees, Rhondda; D. Evans, Cwmbach; J. P. Kane, Dowlais; Seiriol Williams (A.), Pontardawe; J. R. Price (A.), Rhydyfro; E. Afan Jenkins (A.), Craigcefnparc; Rees Lewis (B.), Craigcefnparc; y myfyrwyr canlynol:—Mri. Simon Jones, B.A., Park Davies, B.A., Morgan Jones (B.) a Phillip Williams (A.) Hefyd y Mri. Lee Lloyd, Lerpwl; L. N. Williams, Aberdar; C. H. Perkins, Abertawe; Ifander Griffiths (arweinydd canu ag oedd yn blodeuo tua'r adeg yr oedd Caradog yn ei ogoniant), ac ereill. Yr oedd yr hin hytrach yn anffafriol, ond cafwyd cynulliadau llawn cystal a'n disgwyliadau. Yr oedd hen gapel Gellionen yn orlawn prydnawn a nos Iau. Yr oedd y canu yn dda a hwylus. Pasiodd pobpeth yn dda odiaeth, a gobeithio y bydd bendith yr Arglwydd yn gorphwys ar y cyfan.

[Oherwydd diffyg gofod yn y rhifyn hwn, ymddengys adroddiad gweithrediadau y pwyllgor cyffredinol yn y nesaf.—GOL.]

PWYLLGOR YR YSGOL SUL.

Cymerwyd y gadair gan y Llywydd, y Parch. D. Evans, Cribyn:—

(1) Cafwyd a derbyniwyd adroddiadau y Trysorydd a'r Ysgrifenydd. Ymddengys y cyfrifon naill ai yn yr YMOFYNYDD, neu gydag adroddiad y Gymdeithas fel llynedd.

(2) Dewiswyd y Parch. W. J. Phillips yn Llywydd am y flwyddyn ddyfodol, a'r Parch. D. Evans, Cwmbach yn Is-lywydd. Ail-etholwyd y swyddogion ereill.

(3) Pasiwyd y disgwylir ar yr holl Ysgolion i wneud casgliad tuag at Adran yr Ysgol Sul cyn diwedd Rhagfyr nesaf.

(4) Dewiswyd y Parch. D. J. Williams, Merthyr, yn arholwr cyffredinol am y flwyddyn ddyfodol.

(5) Ail-etholwyd yr holl arholwyr ereill; felly hyderaf y boddlona arholwyr y flwyddyn ddiwedaf i wneud eu rhan y tro nesaf eto. Os dewisa rhyw frawd newid, mae iddo berffaith hawl i wneud hyny os bydd mor garedig a danfon at yr Ysgrifenydd.

(6) Mae'r Gwersi yn barod, a bydd yr Ysgrifenydd yn falch os gwna pob Ysgol ddanfon archebion ar unwaith.

(7) Penderfynwyd fod penodau vii. ac viii. o Holwyddoreg y Parch. D. Evans, Cribyn, i fod i Safon II. ar gyfer yr arholiad nesaf.

(8) Mae'r gofyniadau i'r plant yn barod, a gellir eu cael gan yr Ysgrifenydd.

(9) Penderfynwyd i fabwysiadu yr Actau fel Maes Llafur ar ol gorphen â Luc.

(10) Siaradwyd ar y cwestiwn o gychwyn Misolyn newydd ar gyfer

yr Ysgol Sul. Yr oedd llawer yn addfed i'r mudiad, ond barnwyd mai gwell fyddai gohirio unrhyw benderfyniad hyd y Cwrdd Chwarterol a gynhelir yn Cwrtnewydd tua Hydref nesaf.

(11) Ymddiswyddodd Golygydd y Gwersi, a dewiswyd yr Ysgrifenydd i ofalu am y gwaith am dymor.

Dyna'r gweithrediadau oll, ac yr wyf yn dra hyderus y gwna pob un ymdrech i gario y penderfyniadau uchod allan. Hefyd dymunaf apelio at yr holl Ysgolion Sul i ddechreu o ddifrif i barotoi ar gyfer yr arholiad nesaf. Danfonir y *Certificates* i'r Ysgolion yn bur fuan.

T. J. Jenkins.

MARWOFION.

Mai 22ain, yn 73 oed, Margaret Davies, Anialwch, Rhydlewis. Genedigol ydoedd yr ymadawedig o Ddyffryn Clettwr, ond wedi symud oddiyno er ys blynyddau bellach. Cludwyd ei gweddillion marwol yn ol i fynwent Pantdefaid y dydd Llun canlynol, lle mae ei phriod hefyd yn gorwedd, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parchn. Dan Evans, Hawen ; D. Gwynne Lewis, Crugiau, a T. Arthur Thomas.

Mai 25ain, o'r *pneumonia*, Miss Rowland, o Gastellnedd, yn 37 oed. Y mae pregeth y Parch. W. Tudor Jones, Abertawe, ar achlysur y farwolaeth hon newydd ei chyhoeddi.

Mehefin 20fed, yn bymtheg mis oed, Gwendoline Mary, geneth fechan John a Gwen Hopkin, Trebanos. Claddwyd y Llun dilynol wrth Gelli-onen, a'r Parch. T. J. Jenkins yn gwasanaethu. Heddwch i'w llwch.

Mehefin 20fed, bu farw Elizabeth Davies, priod Evan Davies, Llanwnen, yn 67 oed. Bu'n gyfyngedig i'w gwely am yn agos i ddeuddeg mlynedd ; ond dioddefodd ei chystudd caled yn hynod o amyneddgar a siriol. Nid yn aml y cwrddid a menyw mor dawel a diddrwg a hi, a theimlir chwithdod ar ei hol, yn neillduol yn y teulu. Gadawodd briod a theulu lluosog ar ei hol. Gweinyddwyd arni yn dyner a gofalus trwy y rhan fwyaf o'i chystudd gan ei merch, Sarah. Claddwyd ei gweddillion yn Mynwent Llanwnen dydd Mawrth canlynol ; pregethwyd yn y tŷ gan weinidog Capelygroes, ac wrth y drws ac yn yr Eglwys gan y Ficer.

NODION Y MIS.

Y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.—Derbyniadau (parhad). Eglwys High Street, Abertawe, £1 1s., J. J. Guppy, 5s. ; T. Jones, 5s. ; W. E. Thomas, 10/6 ; E. J. Thomas, 10/6 ; John Burdell, 2/6 ; Moy Evans, 1/6 ; Parch. W. Tudor Jones, 2/6 ; Brondeifi, Llanbedr, £1 12s. od. ; Pentre, Rhondda, 7/6 ; W. S. Jones, Bangor, 2/6 ; Parch. E. E. Jenkins, Coleg Manchester, 2/6 ; Rhydygwin, £1 ; Saunders Davies, 5s. ; Capel Fadfa, £1 ; John Evans, Moss Side, Manchester, 2/6 ; Parch. W. J. Phillips, Nottais, 3s. ; Mrs. Evans, Tregaron, 2/6 ; Rhan o'r Casgliad yn Nghyfarfod Gellionen, £3 17s. ; Islan Jones, Coleg Manchester, 2/6.

Anrhegwyd deiliaid ieuainc Ysgolion Sul Capelybryn, Sychbant, ac Alltyplaca â phob o Destament y Coroniad gan Mr John Spencer

Lloyd, Treorchy. Y mae holl aelodau y tair ysgol yn teimlo'n wir ddiolchgar am y fath rodd, ac yn meddwl mai hon yw y ffordd oreu maent wedi weled i ddathlu y coroniad. Hir oes a llwyddiant i Mr. Lloyd.

CLYDACH VALE.—Sul, Gorph. 13, cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol y gynulleidfa hon; y Parch. T. A. Thomas, Pantdefaid, yn gwasanaethu. Bu y gwasanaethau yn llwyddianus yn yr ystyr oreu. Yr oedd y casgliadau yn foddhaol, y cynulliadau yn y prydnawn a'r hwyr yn gorlenwi ein capel bychan, a'r pregethwr yn ei hwyliau goreu.

PENTRE.—Cynhaliwyd ein gwyl dê flynyddol ar ddydd Iau, y 17eg o Orphenaf. Nid oedd rhif y frawdoliaeth a ymwelasant a ni o Aberdar mor lluosog eleni ag arferol, ond yr oedd yr ymwelwyr o'r gymydogaeth i fynu a'n disgwyliadau goreu. Yr oedd yn llwyddiant digymysg. Y boneddigesau a weinasant wrth y byrddau oeddynt Mrs. D. M. Thomas, Mrs. D. Williams, Mrs. J. Parry, Mrs. Williams, Mrs. T. Swayne, Miss A. Griffiths, Miss Maggie Thomas, a Miss Ellen Thomas.

LLWYDDIANT.—Da genym weled yn mhlith y rhai a basiodd y *London Matriculation* enwau Misses Jane ac Emma Evans (y blaenaf o Ysgol Cribyn), dwy ferch ieuengaf Mr. Thos. Evans, Tynant, Ciliau. Eiddunwn iddynt lwyddiant pellach eto.

EIN MYFYRWYR.—Bydd yn dda gan ein darllenwyr glywed fod y rhai canlynol wedi pasio eu harholiadau yn llwyddianus. Pasiodd Miss Lena Jones, Aberdar, yr *Ordinary Stage* am y radd o B.A.; enillodd Mr. Edwin Jones, Penralltnewydd, y gradd o B.Sc. mewn Amaethyddiaeth; Mr. W. S. Jones, Llanbedr, y radd o B.A.; Mr. J. Park Davies, Llandyssul, y radd o B.A. gydag *Honours* yr ail ddosbarth mewn Hebraeg, Syriaeg a Beirniadaeth yr Hen Destament—yr oll yn Mhrif Ysgol Cymru. Enillodd Mr. E. O. Jenkins ei Dystysgrif yn yr *Home Missionary College*, Manchester. Bydd W. S. Jones a J. Park Davies yn myned i Goleg Manchester, Rhydychen, yn yr Hydref i ddechreu ar eu cwrs duwinyddol.

Y PARCH. E. O. JENKINS.—Bydd cyfarfodydd ei sefydliad fel gweinidog Llwynrhydowen a Chapelyfadfa yn cymeryd lle ar y dyddiau Llun a Sul, Awst 3 a 4. Cyfarfodydd yn Capelyfadfa dydd Sul am 10 a 6, a dydd Llun am 10. Yn Llwynrhydowen am 2 dydd Sul, ac am 2 a 6 dydd Llun. Gwasanaethir gan y Prifathraw Gordon, M.A., Manchester, Parchn. J. Davies, Alltyplacca; R. C. Jones, Llanbedr; Ceredig Jones, M.A., Bradford; W. James, B.A., a T. A. Thomas, Llandyssul; T. J. Jenkins, Gellionen, &c.

DOWLAIS.—Cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol yr Eglwys Undodaidd yn y lle yma dydd Sul, Meh. 13eg. Pregethwyd yn y boreu gan Mr. Simon Jones, B.A., Home Missionary College. Yn y prydnawn traddodwyd anerchiad ar "Ysmotyn Du Ceredigon" gan y Parch. W. James, B.A., Y.H., Llandyssul. Dechreuwyd cyfarfod yr hwyr gan Mr. Robinson, Abercynon, a phregethwyd gan y Parchn. T. Lloyd Jones, Lerpwl, a W. James, Llandyssul. Cafwyd cynulliadau lluosog drwy y dydd, gwrandawiad astud, a chasgliadau gwell nag erioed.

CYFARFODYDD ORDEINIO.—Dydd Llun, Meh. 14eg, cynhaliwyd cyfarfodydd ordeinio Mr. J. P. Kane, o Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin, yn weinidog yr eglwys uchod. Brodor o Blaenanerch, Sir Aberteifi, yw Mr. Kane. Methodistiaid yw ei rieni, a chafodd yntau ei eni a'i fagu yn Fethodist. Bedyddiwyd ef gan yr Hybarch John Jones, Blananerch—Pentywysog y Methodistiaid yr adeg hono; ac yr oedd yna obaith cryf y buasai bedydd John Jones yn ddigon ei ddylanwad i gadw'r plentyn yn *sound* am byth. Dechreuodd Mr. Kane ymbarotoi ar y gyfer y weinidogaeth Fethodistaidd, ond cyn hir cafodd allan nad oedd ffydd ei dadau yn ddigonol i foddloni angenion meddyliol, moesol ac ysbrydol dyn. 'Doedd

hyd yn nod bedydd John Jones, Blaenanerch ddim yn *proof* rhag yr heresi newydd ag sydd y dyddiau hyn yn lefeinio duwinyddiaeth yr eglwysi iawnffyddol. Trodd ein cyfaill dros glawdd ffin y credoau, ac er ei lawenydd cafodd ei hun yn meusydd toreithiog yr unig Eglwys Rydd yn y byd—yr Eglwys Undodaidd. Am 2 o'r gloch ar y dydd uchod, cafodd Mr. Kane ei ordeinio yn weinidog yr eglwys hon. Aeth y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, drwy y rhan ddefosiynol o'r gwasanaeth ; yna cynygiwyd y Parch. R. J. Jones i'r gadair. Croesawyd y gweinidog newydd ar ran y gynulleidfa gan Mri. John Lewis a John Jones—y ddau aelod hynaf ; ac ar ran gweinidogion y cylch estynwyd iddo ddeheulaw cymdeithas gan y Parch. R. J. Jones. Diolchodd Mr. Kane hwynt mewn modd tarawiadol am eu teimladau da. Traddodwyd y siars i'r gweinidog gan y Parch. William James, B.A., Y.H., Liandyssul, a'r siars i'r gynulleidfa gan y Parch. W. Tudor Jones, F.R.G.S., Abertawe. Rhoddwyd anerchiadau byrion o longyfarchiad gan y Parchn. D. J. Williams, L. Jenkins Jones, J. Ewart Jenkins, H. Fisher Short ; David Rees, a T. Lloyd Jones. Yn yr hwyr dechreuwyd y cyfarfod gan y Parch. J. Hathren Davies, Y.H., a phregethwyd gan y Parchn. T. Arthur Thomas, Llandyssul a W. Jones, Abertawe. Drwy yr oll o'r cyfarfodydd yr oedd yna arwyddion amlwg fod rhyw ddeffroad yn cymeryd lle yn hanes yr eglwys, a Sion yn gwisgo gwisgoedd ei gogoniant. Ein dymuniad a'n gweddi yw ar i Dduw fendithio yr uniad hwn rhwng gweinidog ac eglwys, fel y byddo yr eglwys Undodaidd yn Dowlais yn dyfod yn allu er da oni yn y lle. Heblaw y gweinidogion a enwyd yr oedd yn bresenol y Parch. D. Evans, Cwmbach ; a chyn i'r dydd ddirwyn i ben cyrhaeddodd y Parch. J. Fisher Jones yno ar ei ddeurod o Cheltenham. Felly bu rhyw bymtheg o bregethwyr yn cyflwyno eu dymuniadau da i Mr. Kane a'r eglwys a'r ddechreu ei weinidogaeth.

Nos Fawrth, Meh. 15fed, traddodwyd darlith gan y Parch. T. Lloyd Jones, Lerpwl, ar y testyn "Paham yr wyf yn ddirwestwr." Cafwyd darlith ddoniol, rymus a difrifol, wedi ei selio ar dros ugain mlynedd o brofiad yn mhlith y tlodion yn Lerpwl. Cadeiriwyd yn ddeheuig gan Mr. David Jones, cyfaill yn perthyn i'r Methodistiaid Calfinaidd, ond nid hebfod yn perthyn i eglwys gyffredinol Crist.

PLEIDWYR CYNYDD MEWN CREFYDD.—Testun nesaf y gyfres hon fydd "Savonarola," gan y Parch. E. Gwilym Evans, B.A., Chesterfield. Disgwyliwn yr ymddengys yr erthygl gyntaf yn rhifyn Hydref. Ymddengys yn fuan hefyd Adolygiad mewn pedair o erthyglau ar y llyfr hwnw ag y mae cymaint o son am dano y dyddiau hyn : "Amrywiaethau Profiad Crefyddol" (*The Varieties of Religious Experience*) gan y Proff. W. James, o Harvard. Y Parch. W. Tudor Jones, F.R.G.S., fydd yn eu hysgrifenu.

☞ Mae llawer o Farwgofion a Nodion wedi eu gadael allan oherwydd diffyg gofod.—GOL.

ADRAN YSGOL SUL Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG

ARHOLIAD 1903.

LUC, RHAN III—yn awr yn barod. Pris 6c., yn rhad trwy'r *Post*, oddiwrth y Parch. T. J. Jenkins, Tawe Villa, Trebannos, Swansea Valley.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gomerian Press, Llandyssul.